

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – Y Gymraeg mewn
Ysgolion a Lleoliadau Cyfrwng
Saesneg

Fersiwn Terfynol, Medi 2022
Dadansoddiad o Adborth / Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar
Fframwaith y Gymraeg mewn Ysgolion a Lleoliadau Cyfrwng
Saesneg

Dr Nick Morgan, Tom Bajjada, Carly Wise / Miller Research (UK)
Ltd.
Heledd Bebb / Old Bell 3



Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Tom Bajjada

tom@miller-research.co.uk

Pen-y-Wyrlod, Llanwytherin, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8RG, UK

www.miller-research.co.uk | 01873 851880 | Twitter: @miller_research

Tabl cynnwys

Tabl cynnwys2

1.	Cyflwyniad.....	1
2.	Adborth gan Blant a Phobl Ifanc.....	3
3.	Trosolwg o Ymatebion.....	6
4.	Y Gymraeg mewn Ysgolion a Lleoliadau Cyfrwng Saesneg:	
	Cwestiynau 1-12 yr Ymgynghoriad	8
	Cwestiwn 1: <i>A yw'r wybodaeth a roddir yn y fframwaith hwn am brofiadau, gwybodaeth a sgiliau yn cynnig canllawiau i athrawon helpu cynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg?</i>	8
	Cwestiwn 2: <i>A oes rhywbeth ar goll y dylid ei gynnwys yn y profiadau, gwybodaeth a sgiliau?</i>	10
	Cwestiwn 3: <i>A fydd yr wybodaeth am gymwyseddau iaith a ddarperir yn y fframwaith hwn yn helpu athrawon i gynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg?</i>	10
	Cwestiwn 4: <i>Ydych chi'n meddwl y byddai cynnwys brawddeg ychwanegol uwchben disgrifiadau dysgu i grynhoi pob maes cynnydd yn ddefnyddiol i athrawon?</i>	12
	Cwestiwn 6: <i>Pa gyfleoedd dysgu proffesiynol ychwanegol ydych chi'n meddwl y bydd ar athrawon eu hangen er mwyn defnyddio'r Cwricwlwm i Gymru a'r fframwaith hwn yn effeithiol i gefnogi cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg?</i>	15
	Cwestiwn 7: <i>Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r fframwaith ar gyfer y Gymraeg mewn ysgolion, lleoliadau a ffrydiau cyfrwng Saesneg yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yn y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?</i>	16
	Cwestiwn 8: <i>Eglurwch hefyd sut y credwch y gellid ffurfio neu newid y fframwaith arfaethedig ar gyfer y Gymraeg mewn ysgolion, lleoliadau a ffrydiau cyfrwng Saesneg fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai</i>	

	<i>ffafriol na'r Saesneg, ac fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg</i>	19
	Sylwadau ychwanegol.....	21
5.	Ymatebion Ychwanegol.....	23
6.	Gweithdai Ymgynghori Cyflwyniad	44

Geirfa

Term / Talfyriad	Diffiniad / Cyfieithiad
Addysgeg	Pedagogy
ASCL	Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau
Cam Cynnydd	Progression Step
CBAC	Cyd-bwyllgor Addysg Cymru
Meysydd Dysgu a Phrofiad	Areas of Learning and Experience
NEU	Yr Undeb Addysg Cenedlaethol
PLN	Rhwydwaith Dysgu Proffesiynol
WEM	Y Gymraeg mewn [addysg] cyfrwng Saesneg

1. Cyflwyniad

Cefndir

- 1.1 Yn dilyn rhywfaint o waith mapio cychwynnol gan grŵp o athrawon ym mis Hydref 2021, daethpwyd â grŵp ehangach at ei gilydd ym mis Rhagfyr 2021 i wneud argymhellion ar fframwaith drafft ar gyfer y Gymraeg mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg.
- 1.2 Nod y fframwaith yw gwella profiadau a chyrhaeddiad disgyblion wrth ddysgu Cymraeg mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg, cyfrannu at bolisi Cymraeg 2050 a'r pedwar diben (yn benodol, dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau drwy'r Gymraeg a'r Saesneg, law yn llaw â dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n wybodus am eu diwylliant). Yn ogystal, mae'n ceisio darparu cymorth i athrawon sydd ddim yn arbenigwyr mewn addysgu Cymraeg.

Yr Ymgynghoriad

- 1.3 Agorodd yr ymgynghoriad ar fframwaith drafft y Gymraeg mewn Ysgolion a Lleoliadau Cyfrwng Saesneg yng ngwanwyn 2022, gan geisio barnau gan y sector addysg, a chaeodd ar 13 Mai. Mae'r cyfnod ymgynghori yn ffurfio rhan o'r broses datblygu ar y cyd ac mae'n cynnig cyfle hanfodol i bob ymgynghorydd ac i randdeiliaid eraill gyfrannu at gefnogi datblygiad y fframwaith.
- 1.4 Comisiynwyd Miller Research, ar y cyd ag Old Bell 3, i gyflawni dadansoddiad annibynnol o'r ymgynghoriad, gan gynnwys ymgynghoriadau gweithdy gyda rhanddeiliaid, a lledaenu ymatebion ysgrifenedig i'r canllawiau ychwanegol.
- 1.5 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, law yn llaw â chynnwys plant a phobl ifanc (gweler Adran 2), cynhaliwyd cyfres o bum gweithdy, a oedd yn agored i amrywiaeth helaeth o ymarferwyr o addysg gynradd ac uwchradd, yn ogystal â rhanddeiliaid ehangach megis consortia rhanbarthol. Digwyddodd y rhain rhwng 30 Mawrth ac 11 Mai. Roedd themâu i'r gweithdai, gyda gweithdai penodol yn cael eu cynnig i

wahanol grwpiau o randdeiliaid, megis ymarferwyr ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Cynhaliwyd dwy sesiwn gyffredinol hefyd, a oedd yn agored i bawb fynd iddynt.

- 1.6 Cafodd ymatebion i'r ymgynghoriad a'r cyfraniad i'r gweithdai hyn eu dadansoddi'n annibynnol a'u crynhoi i ffurfio sail yr adroddiad hwn. Caiff yr adroddiad hwn ei rannu'n ddwy adran. Mae'r adran gyntaf yn rhoi dadansoddiad o'r ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad. Mae'r ail yn rhoi dadansoddiad o weithdai'r ymgynghoriad.
- 1.7 Yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori bydd y fframwaith yn cael ei addasu ymhellach i adlewyrchu adborth o'r ymgynghoriad. Nod Llywodraeth Cymru yw cyhoeddi'r fframwaith o fewn canllawiau Maes leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'r Cwricwlwm i Gymru ar Hwb yn hydref 2022.

2. Adborth gan Blant a Phobl Ifanc

- 2.1 Fel rhan o'r ymgynghoriad, buom yn cyd-drafod â phlant a phobl ifanc i gasglu eu hymatebion i'w profiadau o ddysgu Cymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg.
- 2.2 Nid casglu adborth uniongyrchol ar y fframwaith drafft oedd nod y gweithgaredd hwn. Y farn oedd ei bod yn bwysig, fel rhan o ymdrech ehangach i ddeall profiadau presennol o ddysgu Cymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg o safbwynt dysgwr.
- 2.3 Roedd y gwaith maes yn cynnwys mynd i Eisteddfod yr Urdd ym mis Mehefin, er mwyn gwneud arolwg plant a phobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg ar hyn o bryd mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg. Ystod oedran yr ymatebwyr oedd 10-18. Mae canfyddiadau'r ymchwili wedi'i nodi isod.

Pwysigrwydd a diben dysgu Cymraeg

Fel y gellid disgwyl gan blant a phobl ifanc a oedd yn mynychu'r eisteddfod, dywedodd yr holl ymatebwyr fod y Gymraeg yn bwysig iddynt pan ofynnwyd hynny iddynt. Roeddent yn dweud cymaint roeddent yn mwynhau dysgu'r iaith. Cafodd y cyfle i ddyfnhau eu gwybodaeth a chadw'r diwylliant yn fyw ei grybwyll yn aml, fel roedd y gallu i gymdeithasu gyda ffrindiau Cymraeg eu hiaith. Roedd amryw o ymatebwyr yn haeru bod y gallu i siarad Cymraeg yn ffurfio rhan o'u hunaniaeth ac yn gweld yr iaith fel rhywbeth "cymunedol". Dywedodd un cyfranogwr, "os yw [y Gymraeg] yn perthyn i'r bobl, mae cyfle'n cael ei golli os na chaiff ei haddysgu, mae perygl y byddwn ni'n colli'n treftadaeth a'n diwylliant".

Yn ogystal, o'r plant a phobl ifanc a arolygwyd, roedd y mwyafrif o'r farn fod y gallu i siarad Cymraeg yn cael effaith cadarnhaol ar eu cyfleoedd gyrfa ar ôl gadael yr ysgol. Eu canfyddiad oedd bod yr iaith 'ar i fyny' a'i bod wedi "tyfu a thyfu". Roeddent yn cyfeirio at nifer o amrywiol swyddi dwyieithog a oedd ar gael iddynt ar ôl addysg.

Addysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg oedd y cyfle gafodd ei grybwyll amlaf.

Defnyddio'r iaith

- 2.4 Fel y crybwyllwyd, roedd plant a phobl ifanc yn siarad Cymraeg yn fwyaf cyffredin yng nghwmni ffrindiau tra dywedodd un disgybl sut roeddent yn ei defnyddio yn eu coleg lleol. Roedd llawer yn mynegi anhawster wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn aml y tu allan i'r ystafell ddosbarth gan eu bod yn dod o deuluoedd Saesneg eu hiaith, ac o'r herwydd, pan oeddent gartref, roedd rhaid dysgu Cymraeg ar eu pen eu hunain.

Gwersi Cymraeg

- 2.5 Roedd plant a phobl ifanc ag agwedd gadarnhaol at eu gwersi a'u hathrawon Cymraeg, gan groesawu'r ffordd roeddent yn eu "gwithio" i ddefnyddio'r iaith. Roeddent yn crybwyll eu gallu i ateb cwestiynau'r athro yn y Gymraeg, law yn llaw â chael sgiliau sgwrsio sylfaenol megis siarad amdanynt eu hunain, sut maent yn teimlo, a'r tywydd. O ran agweddau mwyaf heriol eu gwersi Cymraeg, roedd dysgu geirfa newydd a gramadeg yn cael ei grybwyll dro ar ôl tro.
- 2.6 Roeddent yn teimlo y gellid addysgu mwy ar lefel ysgol gynradd ac ysgol uwchradd i gynyddu eu gallu i gynnal sgwrs Gymraeg mewn sefyllfa go-iawn. Dywedodd un dysgwr "nid yw Cymraeg ail iaith TGAU yn eich helpu mewn bywyd bob dydd", gan ddweud iddynt ddysgu llawer mwy ym Mlwyddyn 12. Roeddent hefyd yn awgrymu cyflwyno 'arholiadau aml-haen Cymraeg' gan fod amrywiad helaeth yng ngallu disgyblion i siarad Cymraeg, a oedd wedi'i benderfynu i raddau helaeth gan eu cefndir, sef a oeddent yn dod o gartref Saesneg neu Gymraeg.
- 2.7 I grynhoi, o'r plant a phobl ifanc a arolygwyd, roedd graddau sylweddol o frwdfrydedd a balchder yn deillio o'u gallu i siarad Cymraeg. Ar lefel genedlaethol, mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i barhau i gefnogi a datblygu cynnydd disgyblion yn eu sgiliau ieithyddol gymaint â phosibl. Mae mireinio fframwaith drafft ar gyfer y

Gymraeg mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg yn golygu'r potensial i gynnig y canllawiau angenrheidiol i ymarferwyr gyflawni hyn.

3. Trosolwg o Ymatebion

- 3.1 Derbyniodd yr ymgynghoriad ar fframwaith y Gymraeg mewn Ysgolion a Lleoliadau Cyfrwng Saesneg gyfanswm o 46 o ymatebion o sylwedd.
- 3.2 Roedd cynllun yr holiadur yn defnyddio cyfuniad o gwestiynau agored a chaeedig, gan roi lle i ymatebwyr roi adborth manwl, a chodi unrhyw gwestiynau neu bryderon perthnasol.
- 3.3 O'r gyfanswm o 46 o ymatebion, cyflwynwyd 39 yn y Saesneg a chyflwynwyd saith yn y Gymraeg. Yn ogystal â'r arolwg, cyflwynwyd ymatebion ysgrifenedig pellach gan nifer helaeth o sefydliadau a grwpiau gan gynnwys, ymysg eraill, Estyn, ASCL Cymru, NEU Cymru, Mudiad Meithrin, 'Rhwydwaith Dysgu Proffesiynol' ac amryw o Awdurdodau Lleol.
- 3.4 Roedd gan y mwyafrif o ymatebwyr i'r arolwg rôl alwedigaethol o fewn ysgol gynradd neu uwchradd cyfrwng Saesneg. Roedd gweddill yr ymatebwyr yn cynrychioli amrywiaeth o grwpiau gan gynnwys y trydydd sector, ysgolion Cymraeg a dwyieithog, Awdurdodau Lleol, sefydliadau addysg bellach, consortia rhanbarthol ac undebau athrawon.
- 3.5 Thema gyffredin o'r ymatebion oedd bod gan y fframwaith y potensial i fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr, gyda'r farn gyffredinol ei bod yn 'garreg naid' at fynd i'r afael â rhai o'r heriau a wynebir gan y sector. Gwnaed sylwadau cadarnhaol ynghylch y cyfeirio'n barhaus at ddiwylliant o fewn y fframwaith. Roedd y cynnig i gynnwys brawddeg ychwanegol ar gyfer y disgrifiadau dysgu hefyd yn cael ei weld fel ychwanegiad cadarnhaol.
- 3.6 Roedd y prif bryderon a godwyd yn ymwneud â hyd y fframwaith, gydag amryw o ymatebwyr o'r farn ei fod yn rhy hir. Yn ogystal, y farn yn aml oedd ei fod yn rhy amwys mewn rhai meysydd ond yn rhy fanwl mewn eraill. Cyfeiriwyd dro ar ôl tro at yr angen i gynnwys continwwm iaith yn nodi patrymau geirfa, gramadeg ac iaith. Yn olaf,

roedd rhanddeiliaid yn atgyfnerthu'r neges nad yw'r fframwaith ond mor effeithiol â'r ymarferwyr sy'n ei weithredu; bod angen am osod mwy o bwyslais, amser ac adnoddau ar sicrhau gan bod athrawon Cymraeg sgiliau ieithyddol ac addysgeg digonol i addysgu Cymraeg ar lefel sy'n cefnogi cynnydd dysgwyr, sydd hefyd yn gyson ag egwyddorion y Cwricwlwm newydd i Gymru.

4. Y Gymraeg mewn Ysgolion a Lleoliadau Cyfrwng Saesneg: Cwestiynau 1-12 yr Ymgynghoriad

- 4.1 Mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad cronolegol o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn o'r arolwg. Mae'r ymatebion wedi cael eu dadansoddi i gyfleu dealltwriaeth o deimlad cyffredinol, themâu allweddol, a meysydd o bryder ac amheuan.

Cwestiwn 1: A yw'r wybodaeth a roddir yn y fframwaith hwn am brofiadau, gwybodaeth a sgiliau yn cynnig canllawiau i athrawon helpu cynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg?

- 4.2 Roedd cyfanswm o 23 o ymatebwyr yn cytuno bod yr wybodaeth yn y fframwaith yn cynnig canllawiau i athrawon i helpu cynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr. Roedd nifer bach o'r ymatebwyr hyn a ymhelaethodd ar eu hateb yn esbonio bod y fframwaith yn darparu sgaffald addas ar gyfer cynnydd, a bod y "sgiliau a phrofiadau mewn camau cynnydd yn helpu gweld sut y dylai plant ddatblygu sgiliau." Roedd ymateb cadarnhaol arall yn nodi sut mae'r fframwaith yn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd i ddisgyblion ac athrawon gyflawni "mewn amrywiol ffyrdd". Yn olaf, roedd ymatebydd yn nodi sut y bydd cael fformat iaith "rhagnodol" yn llywio a rhoi hyder i staff wrth addysgu'r Gymraeg fel ail iaith.
- 4.3 Fodd bynnag roedd 4 ymateb "ydyw" yn amodol. Roedd y rhain yn cynnwys:
- Mae gormod ynddo, ac mae'r disgwyliad ar gyfer athrawon yn rhy uchel o ystyried safon eu Cymraeg
 - Mae'n addas gyhyd ag y bo gan staff ddealltwriaeth ddigonol o'r Gymraeg
 - Mae'n dal i fod heb ddigon o strwythur i athrawon sydd â sgiliau iaith cyfyngedig

- Nid oes gan athrawon yr amser i astudio'r fframwaith hwn yn iawn law yn llaw â dogfennau canllawiau ac adnoddau eraill maent yn eu derbyn.

- 4.4 Fe wnaeth deg o ymatebwyr ateb “Na” i'r cwestiwn hwn, gydag 11 arall yn ateb “ansicr”. Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd am yr ymateb hwn oedd diffyg canllawiau digonol a manylder i ymarferwyr addysgu Cymraeg. Er enghraifft, cyfeiriwyd ato gan un ymatebydd fel “rhy amwys a niwlog”, gan ychwanegu “na ellir ei drosi'n gynlluniau gwersi.” Dywedodd ymatebwyr eraill yn yr un modd “na fydd yn awtomatig yn galluogi athrawon i gynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr,” neu nad yw'r fframwaith yn ddigon manwl i ymarferwyr sydd heb hyfedredd mewn addysgu ieithoedd.
- 4.5 Mae amryw o ymatebwyr wedi nodi'r angen am fframwaith mwy strwythuredig o “sgaffald” ar gyfer sut i addysgu Cymraeg, gydag un yn cyfeirio at y fframwaith presennol fel “arf asesu,” ac nid y strategaeth neu ddull sydd ei angen ar gyfer addysgu iaith.
- 4.6 Mater arall cysylltiedig a godwyd gan dri ymatebydd oedd anghysondeb, gan nodi eu bod yn teimlo bod y fframwaith yn rhy agored i gael ei amrywio. Roedd un yn nodi y gallai hyn arwain at ddisgyblion o wahanol ysgolion “mewn lleoedd gwahanol iawn” pan maent yn gadael yr ysgol gynradd. Maent yn priodoli'r anghysondeb posibl i “ychydig iawn o ganllawiau ynghylch y patrymau iaith i'w cynnwys.”
- 4.7 Thema arall a oedd yn codi gan ymatebwyr a oedd yn ateb “Na” neu “Ansicr” oedd bod gormod o fanylder yn y fframwaith. Mae'r ymatebion hyn yn canolbwyntio ar faint sy'n cael ei ddisgwyl gan athrawon, a faint o amser a fydd yn ofynnol i “ddilyn y ddogfen”. Roedd un ymatebydd yn nodi mai un ddogfen ymhlith amryw yw hon sydd wedi cael eu datblygu ers cyflwyno'r cwricwlwm newydd, ac y bydd y dogfennau canllawiau hyn i gyd yn gofyn am “amser ... i eistedd i lawr, eu deall, eu paratoi, cael hyfforddiant, ei weithredu, gwneud camgymeriadau, ac addasu, cyn eu deall yn llawn.”

Cwestiwn 2: A oes rhywbeth ar goll y dylid ei gynnwys yn y profiadau, gwybodaeth a sgiliau?

- 4.8 Derbyniodd y cwestiwn hwn ymateb cymysg, gydag 17 o ymatebwyr yn ateb “Oes,” 16 yn ateb “Ansicr,” a 9 yn ateb “Na.”
- 4.9 O'r ymatebion “oes”, y thema fwyaf cyffredin a oedd yn sail i'r sylwadau yn ymwneud â'r angen am ganllawiau mwy strwythuredig, a eiriwyd mewn ymatebion fel “cwricwlwm craidd,” “llwybr dysgu,” neu “batrymau iaith.” Roedd y sylwadau hyn, fel yn y cwestiwn uchod, yn mynegi'r teimlad fod angen deunydd ychwanegol a strwythur er mwyn galluogi ymarferwyr i weithredu'r canllawiau. Mae un ymateb o fewn y thema hon yn nodi bod angen hyn neu fel arall bydd “anghysondebau'n cael eu creu gan sgiliau iaith athrawon.”
- 4.10 Mae ymatebion “Oes” eraill yn nodi'r themâu canlynol:
- Mae angen astudiaethau achos ar sut y dylid gweithredu'r canllawiau mewn bywyd go-iawn.
 - Mae angen mwy o adnoddau o ansawdd uchel i gefnogi dysgwyr ac ymarferwyr.
 - Mae gormod i'w ddarllen, a diffyg dealltwriaeth ar faint o amser y bydd yn ei gymryd i athrawon weithredu'r canllawiau.
 - Bydd angen amser ychwanegol ar staff i weithredu'r canllawiau, o ran sicrhau isafswm amser wyneb yn wyneb gydag dysgwyr yn ogystal â darparu amser i ymarferwyr astudio'r iaith.
- 4.11 Ychydig o sylwadau a adawyd gan y rheini a atebodd “Na” neu “Ansicr”, gydag un ymatebydd “Ansicr” yn nodi ei bryder nad yw'r canllawiau'n canolbwyntio digon ar sut i addysgu'r iaith, a all arwain at anghysondeb yn lefelau iaith dysgwyr mewn gwahanol ysgolion.

Cwestiwn 3: A fydd yr wybodaeth am gymwyseddau iaith a ddarperir yn y fframwaith hwn yn helpu athrawon i gynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg?

- 4.12 Rhwng pawb, atebodd 20 o ymatebwyr “Bydd” i’r cwestiwn hwn, atebodd 9 “Ansicr,” tra atebodd 14 o ymatebwyr “Na.”
- 4.13 Ychydig o’r rheini a atebodd “Bydd” a esboniodd eu hatebion, ond o’r rheini a wnaeth hynny, roedd ymatebwyr yn ychwanegu y bydd fframwaith yn helpu cynnig gwell dealltwriaeth o “lefelau ieithyddol” neu wrth ddeall “lle mae plant [arni] ar eu taith ddysgu,” a “helpu’r gweithiwr proffesiynol i adnabod y camau nesaf i blant unigol.”
- 4.14 Roedd un ymatebydd a atebodd “bydd” yn gwneud hynny’n amodol, gan ddweud mai’r hyn sy’n eu rhwystro yw “peidio gwybod sut y caiff [dysgwyr] eu hasesu’n 16 oed.”
- 4.15 Roedd amrywiaeth o sylwadau ychwanegol a roddwyd gan y rheini a atebodd “Ansicr” neu “Na” i’r cwestiwn hwn. Fel gyda’r cwestiynau uchod, roedd diffyg gwybodaeth addas yn cael ei nodi gan amryw o ymatebwyr, gydag un yn nodi “ni fydd yr wybodaeth a gynhwysir yn rhoi cymorth ymarferol i athrawon gynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg.”
- 4.16 Teimlai un ymatebydd y bydd athrawon yn dibynnu ar gonsortia i barhau i’w cyfarwyddo gan nad oes “dim awgrym gwirioneddol o beth ddylid ei addysgu yn y fframwaith hwn.” Dywedodd yr ymatebydd hwn ei fod yn deall pam fod amharodrwydd i orfodi patrymau iaith penodol, ond “mewn maes bregus fel hwn, dylid yn sicr ei ystyried.”
- 4.17 Roedd rhai ymatebwyr “Ansicr” neu “Na” yn crybwyll yr angen am fwy o gymorth i weithredu’r cwricwlwm o safbwynt darparu hyfforddiant. Codwyd sgiliau Cymraeg y gweithlu fel pryder gan ddau ymatebydd.
- 4.18 Roedd nifer bach o ymatebwyr eraill unwaith eto’n nodi amwysedd a natur “dechnegol” y canllawiau, gyda’r canllawiau’n cael eu disgrifio gan un ymatebydd fel rhai “rhy gymhleth [gyda] gormod o gamau.”
- 4.19 Teimlai un ymatebydd “Na” nad oedd “dim llawer o wahaniaeth rhwng pob Cam Cynnydd.”

Cwestiwn 4: Ydych chi'n meddwl y byddai cynnwys brawddeg ychwanegol uwchben disgrifiadau dysgu i grynhoi pob maes cynnydd yn ddefnyddiol i athrawon?

- 4.20 Roedd 29 o ymatebion "Byddai" i'r cwestiwn hwn, 5 ymateb "Ansicr," a 9 ymateb "Na".
- 4.21 I lawer o'r rheini a atebodd "Byddai" ac a adawodd ymatebion, byddai ychwanegu mwy o wybodaeth yn cael ei groesawu: "gorau po fwyaf o eglurder." Roedd ymatebwyr yn nodi y byddai hyn yn ychwanegu "eglurder", y byddai'n ei gwneud yn "haws olrhain yr hyn a gyflawnwyd o'r cwricwlwm," yn ei gwneud yn "hawdd darganfod [pethau] ar amrantiad," ac y byddai'n help ar gyfer "crynhoi". Ychwanegodd un ymatebydd "po fwyaf cyflawn a chlir y gellir gwneud y ddogfen ... [y mwyaf] y byddai'n cefnogi pob ymarferydd ac athro gan na fyddent i gyd efallai yn arbenigwyr ieithyddiaeth nac yn arbenigwyr iaith."
- 4.22 Fodd bynnag, roedd un ymatebydd "Byddai" a oedd yn rhybuddio yn erbyn dod yn ddibynnol ar addysgu strwythurau iaith penodol ar adegau penodol, gan nodi bod crynhoi unrhyw iaith i flychau yn hynod anodd ac yn lle hynny, "bod yn rhaid i golofnau groesi drosodd yn barhaus." Yn yr un modd, roedd un ymatebydd a atebodd gydag "Ansicr" yn gwneud sylw "nad yw'r fframwaith yn gwneud llawer o synnwyr ymarferol" gan fod iaith oddefol, "gwrando, darllen", yn dod cyn mynegi iaith, fodd bynnag o fewn gwers mae ar ddisgyblion angen y cyfle i symud "o ymateb risg-isel ... i ymarfer cynhyrchu i gynhyrchu â hyder."
- 4.23 O ran yr ymatebydd arall a atebodd "Ansicr," mae'r sylw a roddwyd yn dadlau na fyddai'r frawddeg ychwanegol yn "helpu ymarferwyr i ddatblygu cwricwlwm iaith" er y byddai'n cadarnhau pwyslais y disgrifiadau dysgu.
- 4.24 O ran yr ymatebwyr a atebodd "Na," mae'r rhesymau a roddwyd yn canolbwyntio ar y teimlad na fyddai brawddeg ychwanegol yn gwneud fawr i fynd i'r afael â phryderon sylfaenol, yn bennaf ynghylch diffyg

canolbwyntio ar ymdrin ag addysgeg a sgiliau iaith ymarferwyr. Dywedodd un ymatebydd “Na” hefyd ei fod yn “dal heb ddeall y disgwyliadau ar gyfer pob Cam Cynnydd”.

Cwestiwn 5: Pa ddeunyddiau cymorth ychwanegol ydych chi’n meddwl y bydd ar athrawon eu hangen er mwyn defnyddio’r Cwricwlwm i Gymru a’r fframwaith hwn yn effeithiol i gefnogi cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg?

- 4.25 Rhoddodd 36 o ymatebwyr ateb i’r cwestiwn hwn. Gellir rhannu’r atebion a roddwyd yn grwpiau ar sail y themâu canlynol:

Adnoddau ychwanegol i ddysgwyr

- 4.26 Roedd yr adnoddau a drafodwyd o dan y thema hon yn cynnwys llyfrau darllen i ddysgwyr sy’n ddiddorol i blant, llyfrau i ddysgwyr a rhieni, straeon a ysgrifennwyd yn benodol ar gyfer dysgwyr ail iaith, deunyddiau i helpu gydag “ynganu a phatrymau iaith,” ac adnoddau digidol i ddysgwyr ar gyfer gwranddo a gwyllo, a allai fod ar ffurf apiau.

Adnoddau ychwanegol i ymarferwyr

- 4.27 Mae’r deunyddiau hyn yn cynnwys cynlluniau gwersi a deunyddiau ar gyfer pob cam o’r fframwaith, wedi eu creu gan “athrawon ymgynghorol” ac “arbenigwyr iaith”.
- 4.28 Roedd ymatebwyr hefyd yn nodi mynediad at astudiaethau achos, esiamplau a’r arferion gorau, sy’n cynnwys adnoddau a grewyd gan ysgolion a lleoliadau eraill. Roedd un ymatebydd yn awgrymu y gallai ymarferwyr recordio fideos o’r hyn a gyflwynir mewn ysgolion i’w rannu ar Hwb er mwyn dangos yr arferion gorau. Roedd un arall yn nodi’r angen am “fanc gwybodaeth rhyngweithiol i staff ac athrawon i ddarganfod yr eirfa sydd ei angen.”

Mwy o gyfleoedd hyfforddi a dewisiadau Datblygiad Personol Parhaus

- 4.29 Roedd saith ymatebydd yn trafod yr angen am gymorth hyfforddi a chyfleoedd am ddatblygiad personol parhaus. Roedd hyn yn cynnwys “canolbwyntio ar uwch-sgilio pob athro mewn ysgol cyfrwng Saesneg i ddatblygu eu sgiliau iaith.” Roedd un ymatebydd yn nodi'r angen i hyfforddi ymarferwyr i “siarad yr iaith yn ddigon rhugl i'w haddysgu i'r lefelau disgwyliedig,” gan nodi hefyd bod y cynllun sabothol, er yn dda, yn gyfyngedig o ran ei gwmpas. Nodwyd hyfforddiant fel rhywbeth neilltuol o bwysig ar Gam Cynnydd 3, sy'n gofyn am lefelau uwch o Gymraeg.
- 4.30 Roedd un ymatebydd yn nodi gwerth y Cydgysylltydd Iaith a gyllidir trwy Camau a Cwlwm i'r sector nas cynhelir gan y gall y staff hyn helpu ymarferwyr ar eu taith iaith ac i adnabod adnoddau a syniadau ar gyfer gweithredu. Mae'r ymatebydd yn nodi'r effaith mae hyn yn ei gael ar hyder staff i ddefnyddio'r iaith.
- 4.31 Roedd un ymatebydd hefyd yn nodi'r angen am fwy o amser i gynllunio ac addasu adnoddau sy'n bodoli eisoes.

Fframwaith neu strwythurau mwy penodol neu gynhwysfawr i roi arweiniad ar addysgu Cymraeg fel ail iaith.

- 4.32 Yn ogystal ag ymatebwyr yn datgan yr angen am fwy o ddeunyddiau addysgu, roedd 4 ymatebydd yn pwysleisio'r angen am ganllawiau mwy strwythuredig neu gynhwysfawr, gan gynnwys canllawiau cam-wrth-gam, neu “gwrwclwm craidd/continwrm iaith”. Barn un ymatebydd oedd, er na ddylai cwricwlwm gyfyngu ar allu ysgol i ddatblygu eu dull eu hunain o addysgu, byddai cwricwlwm craidd ar gyfer iaith yn “sicrhau bod athrawon ac ysgolion yn gallu cyrraedd gofynion y cwricwlwm newydd a defnyddio'r iaith yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.” Eu teimlad oedd y byddai hyn hefyd yn sicrhau pontio rhwng lleoliadau cynradd ac uwchradd.

Sylwadau eraill

- 4.33 Roedd un ymatebydd yn nodi'r angen am fwy o gefnogaeth i athrawon a phrifathrawon ddeall sut y gall datblygu'r cwricwlwm arwain at gynnydd sylweddol yn y nifer o ddysgwyr a all ddatblygu rhuglder yn y Gymraeg. I'r perwyl hwn, dylid helpu ysgolion i ganolbwyntio ar ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm.

Cwestiwn 6: Pa gyfleoedd dysgu proffesiynol ychwanegol ydych chi'n meddwl y bydd ar athrawon eu hangen er mwyn defnyddio'r Cwricwlwm i Gymru a'r fframwaith hwn yn effeithiol i gefnogi cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg?

- 4.34 Derbyniwyd amrywiaeth helaeth o ymatebion, gyda 37 o ymatebwyr wedi gadael sylwadau.
- 4.35 Roedd llawer o ymatebion yn nodi'r angen am gyrsiau hyfforddi. Cafodd cyrsiau iaith i staff ei godi gan lawer o ymatebwyr, gan gynnwys un ymatebydd yn awgrymu "cyrsiau wythnosol agored i bawb." Roedd ymatebydd yn awgrymu y dylai hyn gael ei gyflawni gan Consortia Rhanbarthol. Roedd un ymatebydd wedi bod ar y flwyddyn sabothol ac yn dweud "heb y profiad gwych hwn fyddwn i ddim wedi cael yr hyder i gyflwyno'r fframwaith hwn."
- 4.36 Cafodd hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael ei nodi gan nifer bach o ymatebwyr, yn enwedig i athrawon sy'n teimlo bod arnynt angen mwy o gymorth. Roedd ymatebydd arall yn awgrymu gwersi digidol i athrawon cyn pob uned o addysgu i helpu'r rheini sydd â sgiliau gwanach yn y Gymraeg.
- 4.37 Roedd amryw o ymatebwyr yn disgrifio'r angen i wella hyder staff yn eu gallu yn y Gymraeg neu eu gallu i addysgu'r Gymraeg. Roedd un ymatebydd o'r fath yn disgrifio'r angen am gyrsiau sy'n canolbwyntio ar godi lefelau hyder.
- 4.38 Roedd nifer bach o ymatebwyr yn nodi'r angen i hyfforddi athrawon mewn addysgeg iaith, gydag un yn nodi bod "y fframwaith yn

annhebygol o lwyddo heb athrawon sy'n meddu ar sgiliau iaith ac addysgeg iaith cadarn i weithredu'r fframwaith yn llwyddiannus."

Mae'r ymatebydd yn nodi'r angen i gynllunio'r hyfforddiant proffesiynol yn strategol a sicrhau bod o leiaf un athro ym mhob ysgol yn datblygu'r sgiliau arbenigol hyn.

4.39 Roedd ymatebwyr eraill yn awgrymu'r canlynol:

- Mwy o bwyslais ar uwch-sgilio staff yn y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.
- Cymorth wythnosol gan arbenigwyr yn y Gymraeg.
- Gweithdai dysgu proffesiynol.
- Dysgu proffesiynol am iaith ac etymoleg iaith.
- Cyfleoedd i rannu arferion da.
- Sicrhau digon o amser i wersi Cymraeg yn yr amserlen.
- Rhaglenni cyfnewid neu secondio gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Cyfleoedd i weithio fel clwstwr i ddatblygu adnoddau ar gyfer y cwricwlwm.

Cwestiwn 7: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r fframwaith ar gyfer y Gymraeg mewn ysgolion, lleoliadau a ffrydiau cyfrwng Saesneg yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yn y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?¹

4.40 Derbyniwyd 37 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

4.41 Teimlai rhai ymatebwyr fod y fframwaith yn gam cadarnhaol, gydag un yn dweud ei fod yn gweithio tuag at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac un arall yn dweud "bydd yn codi

¹ Mae hwn yn gwestiwn gorfodol a gaiff ei gynnwys yn holl ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru.

proffil y Gymraeg ac yn sicrhau y caiff ei thrin yn gyfartal fel pwnc 'craidd'. Teimlai un ymatebydd y dylai'r fframwaith "hwyluso mwy o ymwybyddiaeth o'r angen i fanteisio'n ddyddiol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg", tra bod un arall yn nodi yn yr un modd y bydd yn "cynyddu'r brwdfrydedd dros ddefnyddio'r Gymraeg".

- 4.42 Roedd un o'r farn fod gan y fframwaith yn potensial i sicrhau bod plant ac oedolion yn dod i sylweddoli bod y Gymraeg yn perthyn i bawb. Os yw dysgwyr yn cael profiad cadarnhaol wrth ddysgu Cymraeg, meddai, yna bydd gobaith iddynt barhau i ddatblygu sgiliau mewn addysg uwchradd.
- 4.43 Roedd rhai sylwebwyr, er nad oeddent yn ateb y cwestiwn yn uniongyrchol, yn nodi pwysigrwydd annog y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg mewn modd haniaethol. Roedd un, er enghraifft, yn nodi mai ysgolion cyfrwng Saesneg "fydd yn cael yr effaith mwyaf ar y niferoedd [o siaradwyr Cymraeg] wrth symud ymlaen." Teimlai un arall y dylid annog cyfle i archwilio diwylliant Cymru a'r iaith.
- 4.44 Teimlai mwyafrif yr ymatebion fodd bynnag y byddai effaith y fframwaith ar y Gymraeg yn cael ei llesteirio gan heriau ymarferol. Roedd llawer o'r ymatebion hyn yn tynnu sylw at annigonolrwydd y fframwaith i gael effaith, tra bod eraill yn nodi anawsterau ymarferol ehangach a fyddai'n cyfyngu ar effaith cadarnhaol ar y Gymraeg.
- 4.45 Roedd yr ymatebion canlynol yn nodi anawsterau ymarferol a fyddai'n cyfyngu ar effaith y fframwaith.
- 4.46 Roedd gan un ymatebydd bryderon na fydd y fframwaith yn cael yr effaith a ddymunir heb "fyddin fach o athrawon cymorth peripatetig Cymraeg iaith gyntaf" neu fwy o ddysgu sabothol. Roedd yn rhybuddio ynghylch "codi disgwyliadau ar weithwyr proffesiynol sydd eisoes wedi eu hystyn i'r eithaf," gan ddadlau bod "targedau Cymraeg afrealistig i ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn niweidio morâl o fewn y proffesiwn." Mae ymateb arall yn dadlau yn yr un modd fod "gorfodi hyn ar ysgolion ar hyn o bryd gyda chyn lleied o staff sy'n siarad Cymraeg ... yn achosi straen a phryder gormodol."

Teimlai ymatebydd arall y bydd athrawon anarbenigol yn gweld y Gymraeg yn “bwnc anodd sy’n cymryd llawer o amser” mewn cwricwlwm sy’n llawn i’r ymylon.

4.47 Cafodd sgiliau Cymraeg ymarferwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ei nodi gan un ymatebydd fel rheswm pam fod y fframwaith, yn ei strwythur presennol, yn annhebygol o gael effaith. Mae’r ymateb hwn yn nodi bod y fframwaith yn ei ffurf bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i staff gael sgiliau ac arbenigedd ar lefel uchel er mwyn gallu troi’r fframwaith yn gwricwlwm addas. Ychwanega’r ymatebydd fod angen mwy o gymorth i fynd law yn llaw â’r fframwaith.

4.48 Roedd yr ymatebion canlynol gan y rheini a oedd yn nodi bod y fframwaith yn annhebygol o gael effaith. Gan godi cwestiynau ynghylch effeithiolrwydd y fframwaith, teimlai un ymatebydd er yn rhoi rhywfaint o ganllawiau ei fod yn “gofyn am gael ei fireinio i gynnwys mwy o fanylder ynghyd â dysgu proffesiynol cysylltiedig a chymorth er mwyn sicrhau effaith pellach”. Dywedodd ymatebydd arall mai “effaith cyfyngedig” y bydd y fframwaith yn ei gael oherwydd “na fydd o lawer o ddefnydd i athrawon anarbenigol gan nad yw’n ymateb mewn gwirionedd i’w hanghenion presennol.”

Teimlai un ymatebydd na fyddai iddo sail gadarn gan nad yw’n statudol. Heb fod iddo statws statudol, ei bryder oedd y byddai’r sefyllfa’n aros yr un fath, gydag agweddau anghyson.

4.49 Teimlai un ymatebydd na fydd y fframwaith ynddo’i hun yn arwain at unrhyw newidiadau, a bod angen continwwm iaith er mwyn annog dysgwyr i ddefnyddio’r Gymraeg yn y byd go-iawn. Teimlai’r ymatebydd nad yw’r fframwaith wedi rhoi “dealltwriaeth dda” i bobl nad ydynt yn arbenigwyr o sut y gellir cyflawni hyn.

4.50 Mae sylwadau eraill a dderbyniwyd yn cynnwys:

- Mae rhwystr o ran cymhelliad i ddysgu Cymraeg i ddysgwyr a’u teuluoedd

- Mae obsesiwn gyda STEM yn “rhedeg y sioe” gyda’r cwricwlwm newydd
- Mae anawsterau wrth recriwtio staff sy’n siarad Cymraeg i safon ddigonol y tu allan i’r ardaloedd mwyaf Cymraeg
- Dylai dysgwyr a staff gael eu trochi yn yr iaith
- Canfyddiad negyddol posibl o’r Gymraeg mewn cymunedau di-Gymraeg, gydag angen am negeseuon i gyfleu nad yw’r Gymraeg yn fygythiad i’r rheini nad ydynt yn siarad yr iaith.

Cwestiwn 8: Eglurwch hefyd sut y credwch y gellid ffurfio neu newid y fframwaith arfaethedig ar gyfer y Gymraeg mewn ysgolion, lleoliadau a ffrydiau cyfrwng Saesneg fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, ac fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg²

- 4.51 Derbyniwyd 29 o ymatebion i’r cwestiwn hwn, heb gynnwys atebion a oedd yn nodi “gweler yr ateb blaenorol.”
- 4.52 Fel gyda’r cwestiwn uchod, roedd yr atebion a roddwyd i’r cwestiwn hwn yn amrywio’n helaeth, yn aml gan wneud pwyntiau ehangach y tu hwnt i ystyriaethau penodol y cwestiwn ei hun.
- 4.53 Roedd rhai sylwadau’n ymwneud yn benodol â’r fframwaith. Dywedodd un ymatebydd fod angen mwy o enghreifftiau, gan roi enghreifftiau o’r math o gerrig milltir yr hoffent eu gweld (ee “Cam Cynnydd 1 – gall disgyblion adnabod geirfa gyffredin, ee rhifau a lliwiau, a chysylltu’r hyn maent wedi’i glywed â llun”).
- 4.54 Roedd atebion hefyd yn cynnwys rhywfaint o feirniadaeth o’r fframwaith gan gynnwys un datganiad gan ymatebydd a oedd yn

² Fel gyda Chwestiwn 7, mae hwn yn gwestiwn gorfodol a gaiff ei gynnwys yn holl ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru.

teimlo y “dylai’r fframwaith drafft fod yn fwy penodol a manwl er mwyn rhoi eglurder ynghylch cynnydd.”

- 4.55 Roedd dau ymatebydd yn nodi y bydd y fframwaith yn cael effaith cadarnhaol ar y Gymraeg, gydag un yn dweud y bydd “yn rhoi mwy o hyder i staff i addysgu ... gan wybod yn fras ar ba lefelau y dylai disgyblion fod.” Fodd bynnag, ychwanega’r ymatebydd fod angen dull ysgol gyfan er mwyn gwreiddio’r iaith trwy ei defnyddio’n achlysurol yn barhaus, ynghyd â “chyfoeth o agweddau cadarnhaol gan bob rhanddeiliad.” Mae’r ymatebydd arall yn nodi bod y fframwaith yn anelu at effaith cadarnhaol at yr iaith, ond y bydd yn cymryd blynyddoedd i newid meddylfryd mewn rhai ysgolion. Ychwanega’r ymatebydd hwn fod angen i’r fframwaith aros yn ei le am ychydig flynyddoedd unwaith y bydd y newidiadau terfynol wedi eu gwneud iddo, er mwyn rhoi cyfle i athrawon, adrannau ac ysgolion gael cyfle i’w ddeall.
- 4.56 Gwnaed rhai pwyntiau ehangach ynghylch y ffordd orau o annog y Gymraeg mewn ysgolion. Mae’r rhain yn cynnwys y themâu canlynol:
- I ddisgyblion hŷn, cafodd archwilio y Gymraeg yn y gweithlu ei godi fel rhywbeth buddiol
 - Byddai addysgu diwylliannol Cymraeg llafar peripatetig o fewn clystyrau cynradd yn peri i’r iaith gael ei chynnwys yn fwy
 - Mae hyfforddi staff yn allweddol, gan nad yw staff na all siarad Cymraeg yn gallu ei chynnal i safon mor uchel â’r Saesneg
 - Angen “sblash” ar gyfryngau cymdeithasol i ddangos mor dda yw gallu siarad mwy nag un iaith
 - Mae angen mwy o bwyslais ar ddefnyddio’r iaith yn ymarferol, gyda llai o bwyslais ar arholiadau. Mae gormod o ganolbwyntio ar hyn o bryd ar addysgu dysgwyr i lwyddo mewn arholiadau yn y Gymraeg yn hytrach na’i defnyddio’n ymarferol neu ei mwynhau
 - Mae angen mwy o arweiniad, cyfeiriad a chymorth i ysgolion cyfrwng Saesneg

- Mae angen mwy o adnoddau a hyfforddiant, gyda hyfforddiant i'r holl staff sy'n dilyn y model Cwrs Sabothol
- Dylai'r Gymraeg fod yn statudol ym mhob ysgol a lleoliad yng Nghymru, a dylai pob ysgol gydymffurfio â safonau gyda darpariaeth Gymraeg sy'n berthnasol iddynt
- Mae angen codi statws y pwnc a sicrhau bod ysgolion yn rhoi digon o amser i'r pwnc.

Sylwadau ychwanegol

4.57 Rhoddwyd sylwadau ychwanegol gan 29 o ymatebwyr. Mae'r sylwadau ychwanegol hyn yn cynnwys:

- Cais i gadw mewn cof y blaenoriaethau mewn rhannau tlotach o Gymru lle na chaiff y Gymraeg ei siarad yn helaeth, gan fod dysgwyr eisoes yn wynebu rhwystrau rhag "byw bywydau cynhyrchiol fel dinasyddion gwych"³
- Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn colli cyfle ar gyfer addysgu'r Gymraeg gan nad yw'n annog unrhyw amser ychwanegol yn y cwricwlwm i'r Gymraeg. Bydd datblygu [mewn ysgolion a lleoliadau] cyfrwng Saesneg "yn parhau i aros yn ei unfan am 30 mlynedd neu fwy"
- Mae'r fframwaith yn "rhagorol", a bydd yn "ddefnyddiol iawn ar gyfer helpu athrawon i addysgu Cymraeg"
- Mae angen adnoddau mwy "cyfoes" ac sy'n "ennyn mwy o ddiddordeb", wedi eu teilwra'n benodol i'r patrymau brawddegau a'r strwythurau a ddisgwylir ar bob Cam Cynnydd. Gall adnoddau Cymraeg ar hyn o bryd "fod yn ddiffygiol gan eu bod yn aml yn edrych yn hen ffasiwn"
- Gweithredu rhaglen fentora iaith gyda dysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg, gyda mwy o gyfleoedd i athrawon cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg gydweithio a rhyngweithio

³ Roedd yr ymatebydd yn aralleirio yma un o'r pedwar diben: "byw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas."

- Dylid rhoi'r un faint o amser i'r Gymraeg ag i'r Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg
- Mae angen canolbwyntio manylach ar broblemau ymarferol, megis diffyg staff ysgolion cynradd sy'n hyfedr yn y Gymraeg, a diffyg dysgwyr sy'n dewis ieithoedd yn fwy cyffredinol ar gyfer TGAU a safon uwch
- Mae angen symleiddio'r cwricwlwm a'r fframwaith hwn
- Mae angen trefnu bod adnoddau ar etymoleg iaith ar gael
- Bydd mwy o bwyslais ar y Gymraeg yn gosod baich trymach ar weithwyr proffesiynol sydd eisoes wedi eu hystyngi i'r eithaf i fodloni gofynion y cwricwlwm. Byddai mwy o ddefnydd achlysurol o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm yn ddull mwy realistig.

5. Ymatebion Ychwanegol

- 5.1 Yn ogystal â'r ymatebion a gwblhawyd gan unigolion, derbyniodd yr ymgynghoriad 19 o ymatebion ar ran sefydliadau sy'n gweithio gydag ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg. Cyflwynwyd ymatebion gan y grwpiau canlynol: Estyn, 'Rhwydwaith Dysgu Proffesiynol' y Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg, Dyfodol i'r Iaith, Cymdeithas yr Iaith, Mudiad Meithrin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Abertawe, Cyngor Sir Ddinbych, ASCL Cymru, NEU Cymru, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a'r Gwasanaeth Addysg, Cyngor Sir Ddinbych. Cyflwynwyd cyfres o ymatebion dienw gan grwpiau hefyd.
- 5.2 Rhoddir sylw manylach i'r ymatebion hyn isod. Yn wyneb yr amrywiaeth o sefydliadau perthnasol, a'r newidiadau sy'n digwydd mewn addysgu'r Gymraeg mewn addysg, gwahoddwyd pob adborth. Dylid nodi fodd bynnag fod rhai o'r materion a godwyd trwy'r ymatebion ychwanegol yn disgyn y tu allan i gylch gwaith y broses ymgynghori ar fframwaith Cymraeg mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg. Er y cydnabyddir teimlad eu pryderon mae'n bwysig cydnabod na ellir ymdrin â sylwadau yn y cyd-destun hwn ond mewn cysylltiad â'r fframwaith, yn ogystal â chyfleoedd a deunyddiau dysgu proffesiynol a beth mae hyn yn ceisio'i gyflawni.

Rhwydwaith Dysgu Proffesiynol

- 5.3 Derbyniwyd ymateb gan Rhwydwaith Dysgu Proffesiynol y Gymraeg mewn Addysg Cyfrwng Saesneg, grŵp o ymarferwyr o dde-ddwyrain Cymru yn bennaf. Arwyddwyd yr ymateb gan 52 o ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch. Mae'r ymateb gan y Rhwydwaith yn cydnabod bod y fframwaith ar gyfer y Gymraeg mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg yn 'gam cyntaf' ac y gall fod yn gymorth defnyddiol i ddatblygu cynnydd iaith. Yn gyffredinol er hynny, mae'r Rhwydwaith o'r farn nad yw'r fframwaith yn ddigon penodol nac ystyrlon, a'i fod yn rhy fawr ac amrywiol i brofi'n ddefnyddiol i

athrawon cynradd cyfrwng Saesneg. Yn fyr, eu teimlad yw nad yw'n cynnig y canllawiau angenrheidiol sydd eu hangen ar ymarferwyr i gynllunio cynnydd ddysgwyr yn effeithiol.

- 5.4 Mewn ymateb i'r hyn y dylid ei gynnwys yn y fframwaith, caiff yr angen i fanylu pa iaith sydd wedi ei haddysgu eisoes (gan gynnwys patrymau geirfa a gramadeg) a'r iaith y bydd disgyblion yn ei dysgu unwaith y symudant ymlaen i'r dosbarth nesaf, ei grybwyll fel ychwanegiad angenrheidiol allweddol. Mae angen i hyn gael ei fapio allan a'i fod ar gael i athrawon er mwyn sicrhau cydlynad a chynnydd ar draws grwpiau blwyddyn, gan gynnwys y pontio o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd.
- 5.5 Yn benodol, mae'r Rhwydwaith yn dweud nad yw'r fframwaith yn mynd ati'n ddigonol i gynnig canllawiau i athrawon anarbenigol, gan nad oes ganddynt hyfedredd yn y Gymraeg i drosi'r datganiadau yn y fframwaith yn gynnwys gwirioneddol ar gyfer yr iaith a addysgir yn y dosbarth.
- 5.6 Caiff y cymwyseddau a nodir yn y fframwaith eu gweld fel ffordd ddefnyddiol o ddosbarthu'r gwahanol ddibenion y mae arnynt eisiau i ddysgwyr allu defnyddio'r iaith ar eu cyfer. Fodd bynnag, y farn yw nad ydynt yn cynnig cymorth digonol i gynllunio ar gyfer cynnydd dilyniannol, cydlynol a rhesymegol i ddysgwyr. Mae'r Rhwydwaith yn mynegi amheuaeth i'r cysyniad o gynnwys brawddegau ychwanegol ar gyfer y disgrifiadau dysgu gan eu bod yn teimlo y dylai'r meysydd fod yn hunan-amlwg heb fod angen dim esboniad pellach. Yn ogystal, teimlant nad yw'r brawddegau ychwanegol yn mynd i'r afael â'r hyn sydd yn eu barn hwy yn ddiffyg cydlynad hierarchaidd a dilyniannol mewn rhai meysydd.
- 5.7 O ran deunyddiau cymorth sydd eu hangen gan athrawon, mae'r Rhwydwaith yn cyfeirio at y cynnydd iaith craidd a grybwyllwyd eisoes sy'n cynnwys patrymau, geirfa a gramadeg a gaiff eu trefnu mewn modd sy'n hierarchaidd a chydlynus. Byddai hyn yn cael ei ddilyn gan gynllunio cwricwlwm craidd a fyddai'n galluogi ei weithredu'n

llwyddiannus a chyson gan bob ysgol ac athro cyfrwng Saesneg. Cyfeirir hefyd at gynllunio adnoddau craidd effeithiol, dilyniannol, gan gynnwys adnoddau addysgu ail iaith.

- 5.8 O ran cydnawsedd â deunyddiau cymorth, dywed y Rhwydwaith fod angen i gyfleoedd dysgu proffesiynol fod yn seiliedig ar gynnydd iaith ac ar ddatblygu cwricwlwm craidd, ynghyd ag adnoddau craidd. Caiff y rhaglen sabothol Cymraeg mewn Blwyddyn a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ei gweld fel esiampl o adnodd i gael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, cydnabyddir na allai'r mwyafrif o athrawon ddilyn y rhaglen hon, ac o'r herwydd, dylid rhoi pwyslais yn y lle cyntaf ar hyfforddiant yn y Gymraeg, gan gysoni'r iaith mae athrawon yn ei dysgu â'r hyn maent yn ei haddysgu i ddisgyblion, ac yn ail ar addysgu'r egwyddorion addysgeg i ymarferwyr.

Ymateb dienw gan Awdurdod Lleol

- 5.9 Ar lefel uchel, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn fod y fframwaith yn cynnig canllawiau defnyddiol i ysgolion ond yn teimlo bod angen mwy o fanylder er mwyn i ymarferwyr gynllunio cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg a chael effaith ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol.
- 5.10 Yn ei ffurf bresennol, mae ymatebwyr yn dehongli bod diffyg manylder y fframwaith yn arwain at ddogfen sy'n annealladwyr i rai nad ydynt yn arbenigwyr. Yn benodol, bernir bod mwy o fanylder ynghylch patrymau iaith, geirfa a gramadeg ar draws camau cynnydd yn ddeunydd cymorth angenrheidiol i sicrhau cydlynid a chynnydd.
- 5.11 Caiff dysgu proffesiynol o ansawdd uchel i ymarferwyr ac adnoddau sy'n gysylltiedig â methodoleg addysgu iaith hefyd eu gweld fel adnoddau allweddol.
- 5.12 Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn fod y brawddegau ychwanegol uwchben y disgrifiadau dysgu yn egluro pwyslais y maes.
- 5.13 I grynhoi, bernir bod y fframwaith drafft yn amlinellu ffordd gychwynnol ymlaen ar gyfer addysgu'r Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg.

Fodd bynnag, teimlant fod angen mwy o bwyslais ar ymdrin â'r amrywiaeth yn sgiliau a hyder ieithyddol ymarferwyr pan fyddant yn defnyddio'r Gymraeg.

Ymateb dienw gan Awdurdod Lleol a Chonsortia Rhanbarthol

- 5.14 Roedd y grŵp hwn o'r farn fod y fframwaith yn ddefnyddiol wrth adnabod y profiadau, gwybodaeth a sgiliau ond teimlent nad oedd yn rhoi cymorth digonol i gynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr wrth ystyried y diffyg sgiliau ieithyddol ymysg ymarferwyr mewn addysg cyfrwng Saesneg. Unwaith eto, pwysleisiwyd yr angen i fapio geirfa, gramadeg a phatrymau iaith yn ffurf 'continwrm iaith' ar lefel genedlaethol fel rhywbeth hanfodol er mwyn cysylltu'r disgrifiadau dysgu a'r wybodaeth, sgiliau a phrofiadau cysylltiedig a amlinellir yn y fframwaith.
- 5.15 Crybwyllwyd hefyd yr angen i gefnogi athrawon anarbenigol trwy fwy o fanylion ynghylch methodolegau seiliedig ar sgiliau a hyfforddiant parhaus. Y teimlad oedd nad yw cymwyseddau iaith yn rhoi canllawiau a chymorth pellach i gynllunio parhad a chynnydd yn nheithiau dysgwyr.
- 5.16 Ar y llaw arall, y farn oedd bod y meysydd yn y fframwaith yn ddefnyddiol wrth ganolbwyntio ar y meysydd allweddol o ddatblygiad iaith i ymarferwyr eu hystyried.
- 5.17 Law yn llaw â 'chontinwrm' ieithyddol craidd, mae deunyddiau atodol a nodwyd yn cynnwys testunau ac adnoddau sy'n adlewyrchu'r llwybr cynnydd ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg, yn ogystal ag enghreifftiau o ddysgu ac addysgu sy'n gysylltiedig â chynnydd, o bosibl gan ysgolion arweiniol neu Eiriolwyr Sabothol. Cyfeiriwyd at Siarter Iaith Llywodraeth Cymru fel fframwaith cymorth i yrru'r iaith trwy brofiadau dysgu gwreiddiol. Yn ogystal, roedd y cynllun Cymraeg mewn Blwyddyn yn cael ei weld fel cyfle dysgu proffesiynol allweddol i allu defnyddio'r fframwaith yn effeithiol.

- 5.18 Cafodd yr angen i ddysgu gael ei danategu gan ymchwil a thystiolaeth ei grybwyll drwy'r holl ymateb, yn enwedig wrth gyfeirio at fethodoleg addysgu iaith a dulliau addysgeg. Nodwyd pwysigrwydd dysgu sut i wau patrymau iaith sy'n atgyfnerthu dilyniant a chynnydd. Cafodd mwy o fuddsoddi mewn hyfforddi a recriwtio arbenigwyr sydd wedi eu cymhwyso'n addas hefyd ei grybwyll fel adnodd allweddol. Yn olaf, roedd yr angen am ddysgu proffesiynol i arweinwyr ar bob lefel a phartneriaid gwella ysgolion yn cael ei weld fel rhywbeth hanfodol.
- 5.19 Y farn oedd mai arweinyddiaeth ac ethos / diwylliant yr ysgol, law yn llaw â graddau'r cymorth ac adnoddau a neilltuir i ddatblygu sgiliau ieithyddol ymarferwyr yn genedlaethol, yw'r ffactorau allweddol sy'n penderfynu'r effaith y bydd y fframwaith yn ei gael ar y Gymraeg.

Ymateb dienw gan Undeb Athrawon

- 5.20 Teimla'r Undeb Athrawon fod cysondeb yn y modd y caiff y fframwaith ei gyflwyno sy'n gydnaws â dogfennau eraill y cwricwlwm, yn enwedig y cyfle i ysgolion fod yn hyblyg o safbwynt ei weithredu. Yn ogystal, caiff y pwyslais ar siarad a gwrando ar Gam Cynnydd un a dau ei groesawu fel rhywbeth cadarnhaol i'w gynnwys.
- 5.21 Fodd bynnag, caiff graddau'r manylder a ychwanegir at y fframwaith ei godi fel pryder o gofio cymaint o gynnwys mae ysgolion yn gorfod ymdrin ag ef eisoes. O'r herwydd, mae ofn na fyddant yn gallu gwireddu'r disgwyliad.
- 5.22 Caiff defnyddioldeb yr wybodaeth ynghylch cymwyseddau iaith eu gweld gan yr Undeb fel rhywbeth sy'n dibynnu ar sgiliau ieithyddol athrawon a'r agwedd ehangach at y Gymraeg o fewn yr ysgol.
- 5.23 Caiff y ddarpariaeth o ddeunyddiau enghreifftiol ar bob cam cynnydd eu gweld fel adnodd allweddol. Yn yr un modd, mae'r undeb athrawon yn tynnu sylw at yr angen am i unrhyw gyfleoedd datblygu proffesiynol ganolbwyntio ar gynnwys y fframwaith a disgwyliadau'r model, a rhoi enghreifftiau y gall ysgolion eu haddasu ar gyfer eu cyd-destunau eu

hunain. Tynnir sylw hefyd at yr angen i gynyddu cyfleoedd i athrawon ddatblygu sgiliau iaith y tu allan i'r ysgol ac o fewn hyfforddiant ysgol.

Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) Cymru

- 5.24 Mae NEU Cymru yn codi pryderon nad yw'r fframwaith yn helpu athrawon i gynllunio na chael teimlad o gynnydd, gan weld y ddogfen fel rhywbeth 'anorffenedig'. Er enghraifft, teimlant fod Cam Cynnydd un yn weddol uchel o ran safon, gan hepgor y camau o ddysgu sgiliau sylfaenol ac o'r herwydd, fod angen camau ychwanegol cyn y gall dysgwyr gyrraedd Cam Cynnydd 1. Mae aelodau'n dehongli'r fframwaith fel un sy'n llai o fodel ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg, ond yn hytrach un lle mae graddau disgwyledig o wybodaeth yn hysbys eisoes. Yn gyffredinol, mae consensws fod angen mwy o bwyslais ar y gwahanol fannau cychwyn i ddisgyblion sy'n dysgu Cymraeg, er mwyn adnabod cynnydd yn well ar gam cynnar.
- 5.25 Crybwyllir yr angen i sicrhau bod y fframwaith yn cadw dysgwyr ail iaith mewn cof, gyda'r awgrym o raddfa lithrig, sy'n torri dealltwriaeth yn gamau manwl fel bod dysgwyr yn teimlo eu bod yn symud ymlaen, lle bynnag maent yn cychwyn ohono. Caiff y potensial i ddisgyblion cyfrwng Saesneg dreulio amser mewn ardaloedd lle caiff y Gymraeg ei siarad yn helaeth ei awgrymu fel cyfle dysgu posibl.
- 5.26 Caiff y frawddeg ychwanegol uwchben y disgrifiadau dysgu ei gweld gan aelodau fel rhywbeth defnyddiol sy'n gwneud y fframwaith yn gliriach.
- 5.27 O ran deunyddiau cymorth ychwanegol, cred NEU Cymru y bydd cymwysterau'n helpu cynorthwyo'r gweithlu addysg, gyda manylebau TGAU yn helpu cynllunio cynnydd dysgwyr. Caiff deunyddiau sain / gweledol ychwanegol hefyd eu gweld fel arf pwysig i ddisgyblion sy'n dysgu Cymraeg, gydag adnoddau dysgu cyfunol hefyd yn cael eu crybwyll. Caiff hyfforddiant a deunyddiau i staff ar draws y sector addysg ei weld fel ffordd bwysig o sicrhau bod y Gymraeg yn thema drawsbynciol.

- 5.28 Caiff cyllido hyfforddiant staff i ymarferwyr Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth (yn enwedig athrawon cynradd, anarbenigol) ei weld fel rhywbeth hanfodol er mwyn eu cefnogi i wella eu sgiliau iaith a'u helpu hwy wrth ddefnyddio'r fframwaith.
- 5.29 Yn gyffredinol, mae gan aelodau NEU Cymru bryderon bod perygl i'r fframwaith wneud y Gymraeg yn amhoblogaidd, gydag angen am fwy o bwyslais ar sicrhau bod dysgu Cymraeg yn brofiad cadarnhaol, gyda llwybr cynnydd clir i symbylu dysgwyr.

Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru

- 5.30 Mae ASCL Cymru o'r farn fod y fframwaith yn rhy hir ac anghyson o safbwynt y graddau o fanylder ac uchelgais drwy'r holl ddogfen. Nid yw'r pontio rhwng camau cynnydd yn cael ei weld bob amser fel rhywbeth rhesymegol a dilyniannol, gyda rhai datganiadau'n cael eu hystyried i fod yn rhy amwys tra bod eraill yn eglur. Mewn rhai achosion, crybwyllir y diffyg cyfeirio at adeiladu gwybodaeth na sgiliau o'r camau cynnydd blaenorol.
- 5.31 Mae'r ymateb yn dweud bod yr wybodaeth ynghylch cymwyseddau iaith yn y fframwaith yn eglur a bod y frawddeg ychwanegol uwchben y disgrifiadau dysgu 'yn ddamcaniaethol' yn ddefnyddiol. .
- 5.32 Mewn ymateb i'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sydd eu hangen, mae ASCL Cymru yn crybwyll yr angen am ddysgu ar sail tystiolaeth a chan gymheiriaid, ac addysgu mewn tîm.
- 5.33 Gobeithiant y bydd y fframwaith yn gwella cyfleoedd dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffordd naturiol a difyr, ond teimlant na fydd hyn yn amlwg nes caiff ei wireddu, ei ddatblygu a'i fireinio.

Cyngor Abertawe

- 5.34 Yr ymateb gan Gyngor Abertawe yw, er bod y fframwaith yn cynnig canllawiau i athrawon, bod angen mwy o fanylder i gefnogi staff ymhellach, megis enghreifftiau ysgrifenedig a chlipiau fideo.
- 5.35 Teimlant fod angen am esboniad pellach o'r prif bwyntiau, yn enwedig gyda syniadau o ran pa bryd, ymhle a sut i ddod â'r iaith Gymraeg yn fyw.
- 5.36 Caiff continwwm iaith manwl ochr yn ochr â'r disgrifiadau dysgu eu gweld fel ychwanegiad angenrheidiol, gydag Abertawe yn cynhyrchu eu continwwm eu hunain ar gyfer cynnydd geirfa ac iaith, sydd wedi cael ei rannu gan y gwasanaeth Cymraeg yn Abertawe. O'r herwydd, maent wedi crynhoi pwyslais pob maes mewn dehongliad mwy manwl.
- 5.37 Yn yr un modd, tynnir sylw at ddogfen continwwm iaith ranbarthol neu genedlaethol fel adnodd i gefnogi cynnydd dysgwyr. Cyfeirir hefyd at ddeunyddiau sain-gweledol a darllen cyfoes sydd wedi eu hanelu at ymarferwyr llai hyderus fel offeryn atodol angenrheidiol.
- 5.38 Caiff thema cydweithio a rhannu'r arferion gorau ei chodi, yn enwedig cyfleoedd i ysgol clystyrau / partneriaid ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd a'r defnydd o themâu. Gyda chymorth gan Awdurdodau Lleol a'r rhanbarth, y farn yw bod rhwydweithiau dysgu proffesiynol yn bwysig wrth ddatblygu adnoddau.
- 5.39 Yn olaf, mae Cyngor Abertawe yn datgan yr angen i'r fframwaith gyfeirio at enghreifftiau ymarferol o gyfleoedd gwreiddiol lle mae ysgolion wedi cynllunio cynnwys cwricwlwm wedi ei addasu i'w cyddestun penodol eu hunain.

Gwasanaeth Addysg Cyngor Sir Ddinbych

- 5.40 Mae'r ymateb gan y gwasanaeth addysg yn Sir Ddinbych yn dadlau nad yw'r fframwaith yn ystyried y canlynol:
- Dulliau methodolegol [o ddysgu Cymraeg]
 - Tafodieithoedd rhanbarthol

- Y graddau mae staff cymorth ar gael i gefnogi'r daith iaith er mwyn sicrhau llwyddiant wrth ddatblygu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

- 5.41 Er eu bod yn croesawu egwyddor y fframwaith, bydd diffyg statws statudol yn golygu na fydd ysgolion yn ei fabwysiadu a'i weithredu. Mae angen fframwaith statudol oherwydd na fydd, ar hyn o bryd, yn gallu sicrhau unrhyw welliant mewn ysgolion nad ydynt yng Nghategori Iaith 3.
- 5.42 Mae'r ymateb yn galw am fwy o arweiniad o fewn y ddogfen, gan ddweud ei bod yn annigonol ar hyn o bryd ar gyfer datblygu cynnydd yn y Gymraeg heb athrawon arbenigol yn y Gymraeg. Teimlant y bydd llawer o'u staff yn cael anawsterau wrth weithredu'r fframwaith, yn enwedig wrth ddehongli'r disgrifiadau a roddir o fewn y fframwaith. Mae'r datganiadau yn rhy agored, a all achosi anawsterau i staff di-Gymraeg. Mae angen enghreifftiau syml gyda chynnydd cyson. Byddai adnoddau penodol ar gyfer pob Cam Cynnydd hefyd yn helpu creu llwybr clir a chyson wrth ddatblygu sgiliau iaith dysgwyr.
- 5.43 Mae'r ymatebydd dros wasanaeth addysg Sir Ddinbych yn nodi nad yw'r fframwaith yn ystyried Athrawon Ymgynghorol Cymraeg (y sir), y dylid rhoi sylw i'w rôl o fewn y fframwaith. Bydd hyn yn sicrhau cymorth, hyfforddiant, ac arweiniad o fewn y dalgylch lleol. Yn ôl yr ymatebydd, heb dîm o'r fath ar waith, ni fydd y mwyafrif llethol o ymarferwyr yn hyderus wrth weithredu'r fframwaith.
- 5.44 Wrth drafod adnoddau ychwanegol, mae'r ymateb yn nodi'r angen i unrhyw "gontinwwm iaith" cenedlaethol gael ei gynllunio'n ofalus gan arbenigwyr. Mae Sir Ddinbych wedi datblygu "rhwydwaith" i baratoi a threfnu fframwaith continwwm rhanbarthol ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg yn y gogledd-ddwyrain. Mae angen banc o adnoddau sy'n berthnasol i ogledd, canolbarth a de Cymru. Mae angen i'r adnoddau dyfu'n raddol ac mae angen pwysleisio pwysigrwydd adnoddau sy'n annog siarad fel sgîl ac iddi flaenoriaeth.

- 5.45 O ran y cwestiwn o gyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr, mae'r ymatebydd yn nodi gwerth cyrsiau sabothol i'r unigolion sy'n manteisio arnynt, ond nodir nad oes dim tystiolaeth amlwg fod hyn yn datblygu'r Gymraeg o fewn yr ysgol. Mae ar athrawon sy'n mynychu cyrsiau sabothol angen cymorth felly i sicrhau y gallant barhau i rannu eu harbenigedd. Mae'r ymateb yn nodi bod y sgiliau addysgeg iaith wedi dirywio dros y blynyddoedd diwethaf, a bod angen buddsoddi mewn Athrawon Ymgynghorol Cymraeg i gryfhau'r strwythur sy'n cynnal y Gymraeg. Mae'r ymateb yn tynnu sylw hefyd at adnoddau a arferai fod ar gael, megis y Grant y Gymraeg mewn Addysg, a chysiau hyfforddi a oedd ar gael trwy CBAC i staff mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru.

Ymateb Dienw gan Swyddog Gwella Ysgolion o Awdurdod Lleol

- 5.46 Teimla'r ymatebydd fod y cysylltiad rhwng y canllawiau a geiriad y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn rhywbeth i'w ganmol. Fodd bynnag, dadleua'r ymatebydd nad yw'r fframwaith yn cyfeirio mewn digon o fanylder at elfennau penodol o iaith a gramadeg. Mae'r enghreifftiau yn annigonol i sicrhau cynnydd i ddysgwyr.
- 5.47 Dywed yr ymateb fod angen dealltwriaeth fwy cadarn o sut i addysgu iaith, oherwydd, heb sgiliau iaith arbenigol ymysg ymarferwyr, nid yw'r ddogfen yn ddigon manwl i fod yn ddefnyddiol i athrawon sydd heb ddealltwriaeth o'r Gymraeg nac o iaith. Mae'n dadlau dros gontinwmm iaith; patrymau cystrawennol penodol, geirfa, a gramadeg i gyflawni'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae'r ymateb yn galw hefyd am adnoddau mwy cyfoes yn y Gymraeg, a chysylltiadau o fewn y fframwaith sy'n rhoi enghreifftiau a chymorth i'r rheini nad oes ganddynt brofiad o sut i addysgu iaith.
- 5.48 Wrth gyfeirio at y cymwyseddau o fewn y Camau Cynnydd, teimla'r ymatebydd nad yw ymarferwyr yn gyfarwydd â chymwyseddau iaith, er eu bod yn ddiddorol, ac nad ydynt yn ddigon grymus i alluogi ymarferwyr i gynllunio ar gyfer datblygiad dysgwyr.

Estyn

- 5.49 Mae Estyn yn croesawu'r ffaith fod y ddogfen yn gryno a dealladwy ac yn teimlo y bydd yr wybodaeth o fewn y fframwaith o fudd i arbenigwyr yn y Gymraeg. Maent yn dadlau ei bod yn codi statws y Gymraeg fel iaith na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn cefnogi'r agenda ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac mae'n codi'r disgwyliad i arweinwyr gynllunio cyfleoedd i ddysgwyr o bob cefndir ieithyddol i werthfawrogi'r iaith a'i defnyddio fel rhan o'u bywydau a'u haddysg.
- 5.50 Fodd bynnag, teimlant nad yw'r fframwaith yn cynnwys digon o fanylion penodol am iaith a phatrymau sydd eu hangen ar ymarferwyr i gynllunio'r cam nesaf i'w addysgu. Bydd ar y rheini nad ydynt yn hyderus mewn addysgu Cymraeg angen mwy o fanylder. Cefnogir yr haerriad hwn gan gyfeiriad at adroddiad diweddar gan Estyn a ganfu fod lleiafrif o ysgolion nad oeddent wedi datblygu eu cynllunio'n ddigonol ar gyfer addysgu Cymraeg. Bydd hyn yn parhau heb fod mwy o strwythur a manylder ar gael i ymarferwyr.
- 5.51 Gall cymorth fod yn ffurf adnoddau neu awgrymu gweithgareddau diddorol. Byddai'n fuddiol annog yr arferion gorau trwy enghreifftiau, er enghraifft, cynnig gweithgareddau i athrawon, yn enwedig y rheini sy'n llai hyderus, ar gyfer annog dysgwyr i ddarllen yn y Gymraeg.
- 5.52 Cred Estyn y bydd ar y gweithlu angen cymorth gan Consortia Rhanbarthol i ddehongli'r fframwaith er mwyn cyflwyno gweithgareddau sy'n addas ar gyfer y camau nesaf wrth addysgu dysgwyr. Bydd athrawon nad ydynt yn hyderus mewn addysgeg iaith yn debygol o weld y fframwaith hwn fel un rhy uchelgeisiol ac amwys. Credant y bydd hyfforddiant yn elfen bwysig iawn, gan mai eu profiad hwy yw bod athrawon yn fwy hyderus wrth addysgu Cymraeg lle bo cefnogaeth a hyfforddiant rheolaidd. Mae'n debygol y bydd angen buddsoddi yn sgiliau Cymraeg ymarferwyr eu hunain, a byddai'n fuddiol ystyried sut i fesur effaith yr hyfforddiant hwn ar arferion

ystafell ddosbarth. Mae Estyn yn nodi bod cryn dipyn o amrywiaeth yn yr hyfforddiant sydd ar gael i staff mewn gwahanol awdurdodau lleol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ymarferwyr yn cael cymorth a hyfforddiant rheolaidd, fodd bynnag wynebier anawsterau o hyd wrth ryddhau staff i ddilyn hyfforddiant. Mae'r ymateb hefyd yn nodi gwerth ffurfio cysylltiadau gyda'r sector Cymraeg i Oedolion fel fforwm i rannu'r arferion gorau.

Mae'r ymateb yn tynnu sylw at argymhelliad gan adroddiad diweddar gan Estyn ar Addysg Drochi – fod Llywodraeth Cymru'n sefydlu fforwm cenedlaethol i annog dulliau trochi, gan gynnwys canolfannau lleol i annog ymarferwyr i gyflwyno patrymau geirfa a chystawen gyda dilyniant addas. Er y cydnabyddir bod trochi ac addysgu Cymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg yn wahanol, mae'r hanfodion ynghylch geirfa, patrymau iaith a dulliau yn gysylltiedig.

Yn olaf, cred Estyn fod cyfle'n cael ei golli yn y cyflwyniad i gyfeirio at gyhoeddiadau a blaenoriaethau diweddar, megis Cymraeg 2050, a'r disgwyliad bod ysgolion cyfrwng Saesneg addysgu trwy'r Gymraeg ar gyfer o leiaf 15 y cant o amserlen y cwricwlwm.

Mudiad Meithrin

- 5.53 Dywed yr ymateb gan Mudiad Meithrin fod y fframwaith yn rhoi gwybodaeth glir i athrawon, ymarferwyr arbenigol, a'r rheini heb allu yn y Gymraeg, i gynllunio ar gyfer datblygiad dysgwyr yn y Gymraeg. Mae'n nodi bod y fframwaith yn cyfeirio at gymwyseddau ieithyddol mewn ffordd glir a dealladwy, gan nodi'n glir pa gymwyseddau sy'n cael eu datblygu, a pha brofiadau sydd angen eu cynnig i ddatblygu'r cymhwysedd, gwybodaeth, a sgiliau. Mae'r ymateb yn datgan y byddai darparu astudiaethau achos neu enghreifftiau i ymarferwyr yn ffordd effeithiol o helpu paratoi ar gyfer datblygiad dysgwyr yn y Gymraeg. Mae'n dadlau y byddai cynnig enghreifftiau o ystyr y 'Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig' sy'n ymwneud ag iaith o gymorth i ymarferwyr wrth baratoi'n effeithiol ar gyfer addysgu.

- 5.54 Mae'r ymateb yn nodi y byddai'n ddefnyddiol cael cyfeiriad amlycach yn y cyflwyniad i'r fframwaith at ei gysylltiad â'r Disgrifiadau Dysgu sy'n rhan o'r Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, a thynnu sylw penodol at yr angen i ddilyn Camau Cynnydd sy'n berthnasol i gyd-destun ieithyddol yr ysgol.
- 5.55 Awgryma'r ymateb y bydd angen cyfleoedd dysgu proffesiynol ychwanegol, gan gynnwys bod sesiynau penodol ar gael i ymarferwyr i helpu gyda Chamau Cynnydd penodol, a sesiynau i sectorau penodol er mwyn trafod enghreifftiau. Mae'r ymateb yn awgrymu hefyd fod angen ystyried sut mae'r fframwaith yn mynd law yn llaw â'r dull ysgol gyfan wrth gynllunio i sicrhau bod sgiliau Cymraeg dysgwyr yn rhan allweddol o gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm.
- 5.56 Mae'r ymateb gan Mudiad Methirin yn cadarnhau eu cred y bydd y fframwaith yn cael effaith cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ond mae'n datgan yr angen i gyflwyno'r fframwaith mewn ffordd sy'n annog ei effeithiau cadarnhaol ac sy'n lleihau unrhyw deimladau negyddol a allai fod gan ymarferwyr ynghylch cyflwyno'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm. Rhaid i gyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon ac ymarferwyr gyfoethogi ac atgyfnerthu'r weledigaeth hon.

Ymateb gan Dîm Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae'r ymatebydd yn croesawu'r ffaith fod cydnabyddiaeth o'r heriau mae ymarferwyr yn eu hwynebu wrth addysgu Cymraeg ond yn dadlau nad yw'r fframwaith yn ei ffurf bresennol yn cynnig digon o arweiniad. Mae angen mwy o eglurder ac enghreifftiau o fewn y ddogfen fel y gall athrawon gyflwyno'r Gymraeg. Er bod yr ymateb yn datgan bod y cymwyseddau'n ddefnyddiol ar gyfer adnabod a defnyddio iaith i ddibenion gwahanol, mae'n nodi hefyd fod angen i'r ddogfen gynnwys patrymau iaith a gweithgareddau penodol i sicrhau datblygiad ymysg dysgwyr. Mae angen darparu enghreifftiau ar gyfer

sut mae iaith yn datblygu trwy'r Camau Cynnydd, yn enwedig o fewn y Disgrifiadau Dysgu ar gyfer siarad.

Mae'r ymateb yn codi'r angen am hyfforddiant cenedlaethol i ymarferwyr ar sut i ddefnyddio'r fframwaith, yn enwedig gan nad yw'r mwyafrif o athrawon yn arbenigwyr mewn iaith.

Yn olaf, mae'r ymateb yn nodi'r angen am fwy o adnoddau i ddysgwyr Cymraeg, megis gwefannau, cylchgronau i ddysgwyr, a deunyddiau darllen cyfoes.

Ymateb gan Dîm Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

- 5.57 Mae'r ymateb gan Dîm Ymgynghorol y Gymraeg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam yn nodi bod yr wybodaeth o fewn y fframwaith yn galluogi athrawon i gynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg, ac y bydd yn helpu codi eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o gymwyseddau iaith a gyflwynir o fewn pob Cam Cynnydd.
- 5.58 Fodd bynnag, ychwanega'r ymateb nad oes dim esboniad o beth yw diben y ddogfen. Maent yn codi'r mater o ddiffyg enghreifftiau'n cael eu rhoi ar sut i gyflwyno'r Gymraeg, gan bwysleisio y byddai'n fuddiol cael enghreifftiau o batrymau iaith a gweithgareddau y gellid eu cyflwyno. Mae'r angen i sicrhau bod y patrymau iaith a ddarperir yn berthnasol i'r ardal leol hefyd yn allweddol. Mae'r ymateb yn nodi diffyg statws statudol y fframwaith, gan honni bod statws statudol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn safonau'r Gymraeg a'r defnydd ohoni. Byddai hyn, mae'n dadlau, hefyd yn sicrhau atebolrwydd i ysgolion.
- 5.59 Ar y cwestiwn o adnoddau ychwanegol sydd eu hangen, mae'r ymateb yn nodi'r angen am enghreifftiau o sut mae iaith yn datblygu trwy symud o gam i gam. Awgrymir yr enghraifft canlynol yn yr

ymateb, sy'n canolbwyntio ar enghreifftiau o sut y mae cynnydd yn cael ei wneud:

Cam Cynnydd 1 – 'Rwy'n dechrau mynegi fy nheimpladau' – **Dw i'n hoffi...**

Cam Cynnydd 2 – 'Gallaf rannu syniadau, a mynegi safbwyntiau a theimpladau gan ddefnyddio geirfa berthnasol' – **Dw i'n hoffi ... ond dw i ddim yn hoffi... achos ...**

Cam Cynnydd 3 - 'Gallaf ryngweithio gydag eraill, siarad am fy meddyliau, teimpladau a safbwyntiau gan ddangos empathi a pharch.'- **Dw i'n cytuno efo... Dw i'n hoffi ... hefyd ond mae'n well gen i ... achos ...**

- 5.60 Mae'r ymateb yn disgrifio gweithgareddau hyfforddi ychwanegol y gellid eu cyflwyno, gan gynnwys cyflwyniadau i ymarferwyr ar lefel genedlaethol i esbonio sut i ddefnyddio'r fframwaith yn effeithiol. Mae'r ymateb yn nodi hefyd y rôl y gall Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg ei chwarae wrth gyflwyno'r hyfforddiant sydd ei angen i sicrhau bod y fframwaith yn cael ei weithredu'n effeithiol mewn ysgolion a lleoliadau.

Dyfodol yr Iaith

Mae Dyfodol yr Iaith yn croesawu'r fframwaith a'r cymwyseddau mae'n eu cynnig. Teimplant ei fod yn fanwl a thrylwyr a'i fod yn cydnabod y berthynas rhwng iaith a hunaniaeth. Maent fodd bynnag yn cynnig yr awgrymiadau canlynol ar gyfer gwella.

Mae'r cyflwyniad i'r canllawiau sy'n ymwneud â sgiliau iaith heb gyd-destun. Awgrymant fod y canllawiau wedi eu gwreiddio yn hanes, daearyddiaeth a diwylliant Cymru.

Awgryma'r ymateb fod angen i'r canllawiau ei gwneud yn glir mai o weithgareddau y tu hwnt i'r dosbarth iaith y mae dysgwyr yn ennill profiadau angenrheidiol, er enghraifft, o brofiadau a gyflwynir trwy chwaraeon ac addysg gorfforol, cerddoriaeth, a thrwy ddysgu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg. Sylw arall gan yr ymateb yw, er ei bod

yn dda gweld crybwyll defnyddio'r iaith mewn "gwahanol gyd-destunau cymdeithasol," byddai'n dda cynnwys rhai manylion am gyd-destunau cymdeithasol sydd ar gael ac sy'n berthnasol i oedran y dysgwr, ee gweithgareddau'r Urdd neu Fentrau Iaith.

Mae'r ymateb yn nodi pwysigrwydd dysgu'r enwau daearyddol Cymraeg am leoedd a'r tir, a deall y cysylltiad rhwng yr enwau a hanes.

Uwch-swyddog y Gymraeg mewn Addysg, Awdurdod Lleol Anhysbys

5.61 Teimla'r ymatebydd nad yw'r fframwaith yn darparu gwybodaeth ddigonol i ymarferwyr i'w helpu i gyflawni cynnydd i ddysgwyr. Maent yn datgan yr angen i fapio cynnydd iaith drwy'r Camau Cynnydd gyda chontinwwm iaith, gydag enghreifftiau o ba iaith y dylid ei defnyddio ar ba bwynt, ac i ba safon. Mae patrymau iaith, geirfa, a gramadeg yn hanfodol er mwyn galluogi athrawon i gynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr. Dywed nad oes gan y mwyafrif o athrawon yn yr Awdurdod Lleol y sgiliau a'r gallu angenrheidiol yn y Gymraeg i weithredu'r fframwaith. Mae'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen felly yn cynnwys:

- Continwwm iaith a phatrymau iaith, gydag elfennau gramadegol, wedi eu cysoni â'r Camau Cynnydd
- Cysylltiadau â fideos enghreifftiol ac enghreifftiau o waith ysgrifenedig.

5.62 Dadleua'r ymatebydd y bydd angen hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer gweithredu'r fframwaith, gan gynnwys cyrsiau i wella hyder athrawon. Mae'n nodi bod cyrsiau sabothol yn werthfawr ond nad ydynt yn ddigonol gan nad ydynt yn cynnig lleoedd ond i ychydig iawn o athrawon. Dywed hefyd fod y diffyg cyrsiau hyfforddi penodol sydd ar gael yn ei gwneud yn amhosibl i ysgolion gynllunio'n strategol i wella sgiliau Cymraeg eu gweithlu.

- 5.63 Dywed hefyd nad yw'r cynnydd o un Cam Cynnydd i'r llall yn eglur bob amser.⁴

Ymateb gan Dîm Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg Awdurdod Lleol Anhysbys

- 5.64 Mae'r ymatebydd yn croesawu'r fframwaith gan ei fod yn cynnig rhywfaint o ganllawiau, ac yn nodi bod y cymwyseddau'n ddefnyddiol er mwyn dangos pa sgiliau sy'n cael eu datblygu. Fodd bynnag, teimla'r ymatebydd fod y fframwaith yn brin o ganllawiau ar sut i'w ddefnyddio. Dywed fod angen nodi'n gliriach beth yw diben y fframwaith – nad yw'n ddogfen i gael ei derbyn a'i hanghofio gan athrawon – ond ei bod yn hytrach yn ddogfen i'w defnyddio wrth gynllunio addysgu. Mae'n teimlo ei bod yn anodd i'w deall gan athrawon sydd heb arbenigedd iaith, a bod angen am enghreifftiau, gan gynnwys patrymau iaith i helpu'r athrawon.
- 5.65 Dywed yr ymatebydd fod angen adnodd continwwm iaith er mwyn sicrhau cysondeb rhwng ysgolion, Awdurdodau Lleol, a rhanbarthau ledled Cymru. Dylid cytuno hyn yn genedlaethol, gan gydnabod gwahaniaethau clir rhwng amrywiaethau rhanbarthol mewn iaith, a dylid ei gyflawni gan grŵp o arbenigwyr iaith o bob math.
- 5.66 Mae'r ymateb yn nodi'r angen am hyfforddiant i ymarferwyr a all eu helpu hwy i ddeall patrymau iaith ac addysgeg iaith. Mae'n nodi bod cyrsiau sabothol yn rhagorol, ond mae nifer cyfyngedig o leoedd sydd arnynt. Yn olaf, mae'n ychwanegu y dylai hyfforddiant athrawon gynnwys dysgu am addysgeg a methodoleg iaith.
- 5.67 Mae'n bryderus y bydd ymarferwyr yn osgoi'r fframwaith gan nad yw'n statudol, ac y gall ei ddiffyg statws swyddogol gyfyngu ar faint o bwyslais a roddir ar addysgeg iaith mewn cyrsiau hyfforddi athrawon.

⁴ Er enghraifft, yn y disgrifiad dysgu siarad, yng Ngham Cynnydd 2 dywed, 'Rwy'n dechrau defnyddio iaith briodol i siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol a'r dyfodol.', ond ni chaiff hyn ei gynnwys yng Ngham Cynnydd 3, ac nid yw'n esbonio pa iaith ddylid ei defnyddio, hynny yw a oes disgwyl i'r dysgwyr ddefnyddio berfau afreolaidd / amrywio person y ferf / negyddu / defnyddio'r amser amherffaith wrth siarad am y gorffennol, etc.

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

- 5.68 Mae'r ymateb gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn datgan yr angen am enghreifftiau mwy diriaethol yn y fframwaith, yn enwedig rhai sy'n ymwneud â'r patrymau a ddisgwyllir o'r sgiliau. Mae'r ymateb yn pwysleisio bod angen cynnwys gwybodaeth am gwricwlwm iaith er mwyn i hon fod yn ddogfen ystyrlon i'r gweithlu addysg. Teimlant ei bod yn ddogfen rhy gymhleth a swmpus fel y mae. Er eu bod yn cydnabod y gellir rhyddhau gwybodaeth ar batrymau iaith ar wahân, byddai'n ddefnyddiol eu cynnwys o fewn yr un ddogfen. Dywedant fod angen canllawiau i ymarferwyr er mwyn osgoi bod gormod o amrywiad wrth ddehongli'r fframwaith.
- 5.69 Mae'r ymateb yn croesawu'r cymwyseddau, gan ddisgrifio y byddant yn meithrin dealltwriaeth ohonynt, ond mae hefyd yn datgan yr angen am fwy o ganllawiau ar sut i ymgorffori'r cymwyseddau.
- 5.70 Mewn ymateb i'r cwestiwn am adnoddau ychwanegol, mae'r ymatebydd yn nodi'r buddion sydd wedi deillio o greu llyfrau cwrs i'r sector dysgu oedolion, sy'n cynnwys:
- Maent yn rhoi mwy o bwyslais ar hyfforddiant addas ac ar sut i fywiogi'r llyfrau cwrs. Nid yw hyn wedi cyfyngu ar greadigrwydd athrawon
 - Maent yn darparu adnoddau atodol i athrawon, ac er y caiff unedau gwaith eu dehongli'n wahanol, maent yn cyflwyno'r un patrymau a'r un eirfa
 - Gan fod pawb yn defnyddio'r un llyfrau cwrs, mae wedi galluogi datblygu a buddsoddi mewn adnoddau digidol o ansawdd uchel sy'n unol â'r cwrs
 - Mae partneriaid yn awyddus iawn i weithio gyda'i gilydd, e.e. mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi buddsoddi mewn cyfres o lyfrau wedi eu graddio, gyda gwerthiannau'r llyfrau hyn yn mynd ymhell y tu hwnt i gyfartaledd gwerthiannau llyfrau Cymraeg

- Cyhoeddwyd chwech o lyfrau cwrs yn 2020, gydag un yn cael ei fireinio bob blwyddyn wrth ymgynghori â thiwtoriaid Cymraeg. Mae hyn wedi annog elfen o berchnogaeth dros y deunyddiau.

5.71 Pwynt olaf yr ymateb yw siom o beidio â gweld cyfeiriad at y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n "ddigymell" o fewn y fframwaith, sef yr hyn a ddylai fod nod y fframwaith, waeth beth fo'r Cam Cynnydd.

Ymateb Dienw gan Ymatebydd o Gonsortia Rhanbarthol

5.72 Mae'r ymatebydd yn cefnogi nod y fframwaith a'i uchelgais, ond yn mynegi pryder nad yw'r fframwaith yn eglur i ymarferwyr.

5.73 Mae'r ymateb yn datgan ei ansicrwydd nad yw'r fframwaith yn cynnwys gwybodaeth ddigonol i athrawon i helpu cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg, gan ddadlau y bydd angen deunyddiau cymorth a fydd wedi eu cynllunio'n benodol i helpu athrawon ar draws sectorau. Teimlir hefyd fod y cymwyseddau yn y fframwaith yn rhy gyffredinol, gyda rhy ychydig o wybodaeth ar sut maent i gael eu datblygu. Teimla fod perygl na fydd athrawon, heb yr adnoddau hyn ac astudiaethau achos yn targedu agweddau penodol o'r fframwaith, yn gallu deall amcanion y fframwaith. Ychwanega fod perygl y bydd y fframwaith yn eistedd ar silff, oni cheir "mwy o gig ar yr asgwrn". Mae'n nodi bod angen dealltwriaeth ddofn o addysgeg iaith er mwyn deall sut mae dysgwyr yn camu ymlaen mewn iaith, felly'r angen am "gwricwlwm craidd" i fynd law yn llaw â'r fframwaith.

5.74 Mae'r ymateb yn nodi'r angen am hyfforddiant a rhannu arbenigedd, gydag athrawon yn cyfrannu at adnoddau i fynd law yn llaw â'r ddogfen. Dywed y byddai cydgynhyrchu adnoddau gydag ymarferwyr ar draws sectorau yn annog perchnogaeth o'r fframwaith. Dylai adnoddau ychwanegol hefyd adlewyrchu pwysigrwydd "seicoleg iaith", a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cyflwyno'r Gymraeg fel iaith fyw ar draws y cwricwlwm. Dylai'r deunyddiau cymorth ymgorffori egwyddorion y Siarter Iaith a hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg anffurfiol

i weithio tuag at y nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

- 5.75 Mae'r ymateb yn manylu ar ddewisiadau ar gyfer hyfforddiant, gan gynnwys cyrsiau datblygiad proffesiynol sy'n canolbwyntio ar addysgeg iaith, ac yn benodol, ar sut mae sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn cyfrododdu a chefnogi ei gilydd. Dylai cyrsiau hyfforddi athrawon hefyd gynnwys hyfforddiant ar y fframwaith. Dylid adeiladu ar y cyrsiau sabothol hefyd, gan fanteisio i'r eithaf ar arbenigedd unigol athrawon a oedd yn rhan o'r hyfforddiant.
- 5.76 Yn olaf, mae'r ymatebydd yn nodi y dylai'r fframwaith fod yn sail ar gyfer trafodaethau ehangach am le'r Gymraeg o fewn y cwricwlwm drwy'r holl ysgol.

Cymdeithas yr Iaith

- 5.77 Mae'r ymateb gan Gymdeithas yr Iaith yn beirniadu datblygu fframwaith ar wahân ar gyfer ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg gan ei fod yn mynd yn erbyn yr egwyddor o un continwwm sengl o addysgu ac asesu'r Gymraeg gan ddweud nad yw fawr mwy nag ailfrandio Cymraeg ail iaith. Dywed yr ymateb fod cadw'r llwybrau dysgu hyn ar wahân yn torri trwy'r athroniaeth sy'n sail i'r Cwricwlwm i Gymru a'i fod yn parhau â'r nenfwd artiffisial sy'n cyfyngu ar lwyddiannau dysgwyr yn nhermau sgiliau iaith. Credant y bydd y fframwaith yn parhau i greu gwahaniaethau rhwng dysgwyr o safbwynt iaith ac y bydd yn parhau i amddifadu dysgwyr o'r gallu i ddysgu a mwynhau'r Gymraeg.
- 5.78 Mae'r ymateb yn nodi tystiolaeth o fethiannau ac anghysondebau gydag addysgu'r Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg, gan roi enghraifft o ddisgybl a oedd yn gallu llwyddo gyda gradd A mewn arholiad, ond nad yw'n gallu siarad yr iaith.
- 5.79 Mae Cymdeithas yr Iaith yn nodi'r angen am fframwaith sydd â disgwyliad clir, ond sydd hefyd yn sicrhau bod y disgwyliadau hyn yn

rhan o'r un continwmm, ac sy'n gosod disgwyliadau uchel i bob dysgwr.

- 5.80 Mae'r ymateb yn dadlau'r angen am fuddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant i'r gweithlu addysg er mwyn arbed arian yn yr hirdymor. Mae angen strategaeth hefyd ar sut i hyfforddi'r gweithlu. Mae Cymdeithas yr Iaith wedi llunio strategaeth sy'n argymhell camau fel rhyddhau staff ar gyfer hyfforddiant, sicrhau bod cyrsiau hyfforddi athrawon yn gefnogol i'r iaith Gymraeg, a gosod targedau ar gyfer y gyfran o'r gweithlu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac y gall addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 5.81 Dywed Cymdeithas yr Iaith fod angen datblygu mwy ar y Gymraeg ar draws y cwricwlwm, gan nodi nad cyfrifoldeb athrawon Cymraeg yn unig yw hyn, ond cyfrifoldeb staff ar draws yr ysgol yn ei chyfanrwydd.

6. Gweithdai Ymgynghori

Cyflwyniad

- 6.1 Mae'r bennod hon yn nodi canfyddiadau'r pum gweithdy a gynhaliwyd rhwng 30 Mawrth ac 11 Mai 2021. Mynychwyd y gweithdai gan 36 o gyfranwyr a oedd yn cynrychioli amrywiaeth o grwpiau targed allweddol. Amlinellir y grwpiau targed a manylion y gweithdai yn y tabl isod:

	Dyddiad	Grŵp Targed	Nifer mynychwyr
1	30 Mawrth 2022	Ymarferwyr ysgolion cynradd (Saesneg a Chymraeg)	10
2	4 Mai 2022	Ymarferwyr ysgolion uwchradd (Saesneg)	1
3	5 Mai 2022	Ymarferwyr ysgolion uwchradd (Cymraeg)	3
4	10 Mai 2022	Gweithdai cyffredinol – cyfle i ddal pawb (Saesneg)	10
5	11 Mai 2022	Gweithdai cyffredinol – cyfle i ddal pawb (Cymraeg)	12

- 6.2 Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn y gweithdai hyn wedi cael eu trefnu'n bum prif thema a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod dadansoddi. Bydd yr ymatebion gan bob grŵp targed yn cael eu trafod o fewn y themâu hyn, sy'n ffurfio amlinelliad yr adran hon.

Thema 1: Argraffiadau cyntaf o'r fframwaith

- 6.3 Roedd mwyafrif y cyfranwyr o'r gweithdy ymarferwyr ysgolion cynradd yn nodi pwysigrwydd cael fframwaith y gellir ei ddeall a'i ddefnyddio gan rywun nad yw'n arbenigwr. Y prif bryder ymhlith cyfranwyr oedd na ellir defnyddio'r fframwaith yn effeithiol os nad oes gan athro afael cadarn o'r Gymraeg. Mynegwyd y teimlad hwn hefyd gan yr ymarferwyr ysgolion uwchradd a'r grŵp cyffredinol cyfrwng Saesneg,

a deimlai na fyddai'r fframwaith yn cael ei ddeall yn rhwydd gan athrawon nad oeddent wedi cael hyfforddiant digonol yn y Gymraeg neu oedd â hyfedredd cyfyngedig.

- 6.4 Teimlad cyfranogwyr ar draws pob gweithdy oedd, er bod y fframwaith yn cynnwys llawer o wybodaeth, roedd yn brin o'r manylder cywir ar gyfer athrawon anarbenigol. Roedd cyfranogwyr o'r gweithdy Cymraeg cyffredinol yn pwysleisio eu pryderon ynghylch sut i drosi'r fframwaith yn gwricwlwm y gellir ei ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Mae hyn yn ymwneud â'r angen am sgiliau addysgeg iaith arbenigol er mwyn gwneud synnwyr o'r fframwaith.
- 6.5 Roedd teimlad cyffredinol ymysg cyfranogwyr o'r grŵp cyffredinol Saesneg y byddai pobl yn cael mwy o anogaeth i roi sylw i'r fframwaith a'i ddefnyddio pe bai'n orfodol. Yn gyffredinol, roedd cyfranwyr ar draws y grwpiau targed yn cytuno bod y fframwaith, er bod ynddo le i wella, yn fan cychwyn da ac yn gam yn y cyfeiriad iawn. Mae'n iawn yn y ffordd mae'n canolbwyntio ar ddatblygu'r Gymraeg.

Trefn

- 6.6 O safbwynt trefn y fframwaith, a beth fydd ymarferwyr yn ei weld pan maent yn ymwneud â'r ddogfen, roedd cyfranwyr yn mynegi'r angen ar i'r fframwaith fod yn syml a chryno. Yn yr un modd, roedd y grŵp Cymraeg ymarferwyr ysgolion uwchradd yn cytuno bod fframwaith symlach yn well, gyda chwmpas mwy penodol ac yn llai agored i wahanol ffyrdd o'i ddehongli.
- 6.7 Roedd cyfranogwyr o'r grŵp cyffredinol Saesneg ei iaith yn cytuno y gellid mireinio'r fframwaith, gan ei fod yn ddogfen eithaf hir gyda llawer o wybodaeth yn ei ffurf bresennol. Roedd y grŵp hwn yn ogystal â'r grŵp Cymraeg cyffredinol yn crybwyll y byddai llawer o adrannau o'r fframwaith yn elwa o enghreifftiau, fel y gallai athrawon sydd â gwahanol lefelau o arbenigedd deimlo'n gysurus wrth ddefnyddio'r ddogfen.

- 6.8 Ym mhob gweithdy, dywedwyd bod angen “continwmm iaith craidd manwl” yn y fframwaith. Yn debyg i'r pwynt uchod, byddai hyn yn dangos enghreifftiau, ac yn rhoi eglurder a diben drwy'r holl ddogfen.
- 6.9 Barn gyffredin ymysg cyfranwyr oedd, ar yr olwg gyntaf, bod potensial sylweddol yn y fframwaith, cyn belled ag y bydd ynddo enghreifftiau perthnasol a chreadigol. Yn ogystal, byddai cydweithio ymysg gweithwyr proffesiynol yn fuddiol. Fe wnaeth un cyfrannwr y sylw: *“mae angen i bawb fod yn gweithio yn yr un cyfeiriad; gweithwyr proffesiynol yn buddsoddi mewn cynllunio'r cwricwlwm, gydag athrawon yn ei ddehongli, ac ychwanegu eu creadigrwydd yn yr ystafell ddosbarth”.*

Cydnawsedd â'r Cwricwlwm i Gymru

- 6.10 Yn ystod y gweithdai gofynnwyd i'r cyfranwyr ddisgrifio os oedd, a sut oedd, y fframwaith yn gydnaws â'r Cwricwlwm i Gymru yn ehangach. Dywedodd ymarferwyr ysgolion cynradd fod lle i eglurder pellach ac enghreifftiau ar sut y gall y fframwaith gefnogi dysgu ac addysgu Cymraeg mewn modd blaengar, fel y mynegir yn y cwricwlwm newydd. Dywedodd cyfranogwyr fod y cwricwlwm wedi ei adeiladu ar gynnydd cydlynol, sy'n agwedd hanfodol o'r fframwaith. Roedd y teimlad hwn yn cael ei ailadrodd gan ymarferwyr ysgolion uwchradd Cymraeg.
- 6.11 Dywedwyd bod enghreifftiau o weithgareddau ac asesiadau yn cael eu hargymell yn gryf ar gyfer y fframwaith. Fodd bynnag, barn wahanol a ddaeth i'r amlwg gan sylwebwyr yma oedd mai anaml y mae darparu cynlluniau gwersi yn gweithio, ac y dylai ymarferwyr fod yn wiliadwrus o wneud y camgymeriad o wersi wedi eu cynllunio'n fanwl.
- 6.12 Dywedodd cyfranogwyr o'r grŵp Cymraeg cyffredinol eu bod yn teimlo nad yw'r Cwricwlwm i Gymru yn cefnogi caffael iaith. Yn sgil hyn, teimlent y byddai'r fframwaith yn elwa o strategaeth lawer cadarnach ar gyfer dysgu iaith. Roedd cyfranogwyr yn cydnabod hefyd na all y

fframwaith fod yn rhy benodol, a bod parhau cydnawsedd â'r Cwricwlwm i Gymru yn bwysig.

- 6.13 Yn gyffredinol, roedd cyfranogwyr ar draws mwyafrif gweithdai'r ymgynghoriad yn cydnabod bod angen i'r fframwaith fabwysiadu ethos tebyg i'r hyn sydd gan y Cwricwlwm i Gymru o ran y ffordd mae'n ymwneud â dysgu Cymraeg. Roedd trafodaethau am yr angen i'r fframwaith fod yn "asgwrn cefn" i addysgu'r Gymraeg, gan sicrhau ei fod yn safonol a chyson.

Thema 2: Eglurder y fframwaith

- 6.14 Yn ystod gweithdai, gofynnwyd i gyfranwyr gynnig sylwadau yn ymwneud â pherthnasedd ac eglurder y fframwaith, ac ystyried y graddau y mae'n darparu ar gyfer amrywiaeth helaeth o leoliadau ysgolion, lefelau cynnydd, a dysgwyr unigol.
- 6.15 Sylw cyffredinol a wnaed gan y cyfranwyr o'r gweithdy ymarferwyr ysgolion cynradd oedd bod dehongli'r fframwaith a'i weithredu'n llwyddiannus yn dibynnu i raddau helaeth ar yr athro. Dywedodd un ymatebydd: *"y ffordd mae athro'n addysgu [yw'r hyn] sy'n cael effaith anferthol; mae addysgeg yn aml yn ddibynnol ar agwedd [yr athro]"*. Dilynwyd hyn gan sylw ar sut y cafodd y fframwaith ei greu yr un fath i bob dysgwr, er gwaethaf eu amrywiol ddoniau yn y Gymraeg, ac felly, mae'r cyfrifoldeb ar yr athro am ei weithredu'n addas ac effeithiol yn yr ystafell ddosbarth.
- 6.16 Roedd llawer o gyfranwyr o'r gweithdai ymarferwyr ysgolion uwchradd yn cytuno bod y fframwaith yn darparu *"cystal ag y gallai"*, yn wyneb yr amrywiaeth o athrawon a dysgwyr a fydd yn ymwneud ag ef. Dywedodd rhai cyfranwyr fod y fframwaith yn addas i bob lefel, gan gynnwys dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Dywedwyd yr un peth gan y grŵp Cymraeg cyffredinol. Fodd bynnag, yr her a bwysleisiwyd oedd y gwahanol lefelau o sgiliau Cymraeg ymysg myfyrwyr; cydnabuwyd fod dull "un maint addas i bawb" yn anodd ei gyflawni.

- 6.17 Roedd y grŵp Cymraeg cyffredinol yn nodi sut y gellir adeiladu cynnydd iaith dysgwyr trwy'r fframwaith, ond bydd hyn yn ddibynnol ar enghreifftiau manylach o brosesau, tasgau ac allbynnau. Barn gyffredin ymysg cyfranwyr yn y grŵp hwn oedd bod y fframwaith yn cynnig digon o hyblygrwydd ar bob lefel fel y gellir ei addasu ar gyfer dysgwyr sydd ag amrywiol anghenion a galluoedd.

Darparu ar gyfer lleoliadau gwahanol

- 6.18 Teimlad y grŵp ymarferwyr ysgolion cynradd oedd er bod y fframwaith yn darparu cystal â phosibl i wahanol leoliadau ysgolion, y broblem fwy yw bod llawer o leoliadau nad oes ganddynt arbenigwyr iaith Gymraeg i weithredu'r fframwaith cystal ag y gellid. Ailadroddwyd y pwynt hwn gan ymarferwyr ysgolion uwchradd a ddywedodd fod cyfyngiadau amser ar addysgu Cymraeg. Dywedwyd bod dwy awr bob pythefnos yn annigonol.
- 6.19 Gwnaed y sylw gan y grŵp Cymraeg o ymarferwyr ysgolion uwchradd fod her fwy o weithredu'r fframwaith mewn cyd-destun ysgol uwchradd. Y rheswm dros hyn yw'r ffaith fod yn rhaid i'r holl ddisgyblion sefyll yr un arholiadau yn y pen draw, sy'n arwain at fylchau mewn deall sut i asesu cynnydd dysgwyr unigol mewn modd teg a chyson.
- 6.20 Dywedodd y grŵp Saesneg cyffredinol fod y fframwaith yn darparu'n dda ar gyfer pob lleoliad. Fodd bynnag, ystyriaeth bwysig yw bod ar bob ysgol angen adnoddau addysgol sylfaenol ac enghreifftiau i sicrhau bod pob maes o'r fframwaith â safonau cyson o ddysgu Cymraeg. Fel hyn, bydd gan athrawon ar draws lleoliadau ac ysgolion syniad clir a ydynt yn gweithio tuag at nodau tebyg i eraill neu beidio.
- 6.21 Roedd y grŵp Cymraeg cyffredinol yn adleisio'r angen am fwy o enghreifftiau ar dasgau ac allbynnau. Roedd cyfranwyr o'r grŵp hwn, fodd bynnag, yn gweld sut mae cynnydd yn adeiladu drwy'r holl fframwaith. Argymhelliad gan y grŵp hwn y cytunwyd yn gryf arno oedd y dylid galluogi trafodaeth ar draws y clwstwr, er mwyn ystyried

y ffordd orau o annog cynnydd di-dor o leoliadau cynradd i leoliadau uwchradd, a thrafodir hyn ymhellach isod.

Thema 3: Cynnydd yn y fframwaith

- 6.22 Roedd teimlad ymysg ymarferwyr ysgolion cynradd fod gorfod ailedrych ar y Gymraeg o'r cychwyn ar ddechrau Blwyddyn 7 yn broblem fawr, gan awgrymu nad yw cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd ar hyn o bryd yn cael ei gefnogi gystal ag y gallai.
- 6.23 Teimlai'r ymarferwyr ysgolion uwchradd a oedd yn siarad Cymraeg y byddai'n addas i gonsortia gamu i mewn i'r gwagle hwn a rhoi enghreifftiau o ddysgu ac addysgu mewn cyd-destunau cynradd ac uwchradd. Byddai hyn yn rhoi canllawiau ar gyfer cynnydd ac yn hwyluso'r pontio o'r cynradd i'r uwchradd. Roedd y cyfranwyr yn y grŵp hwn yn awgrymu y byddai galluogi cydweithio rhwng lleoliadau fel hyn yn fuddiol i bawb. Byddai'n rhoi cyfle i leoliadau weithio gyda'i gilydd, i arbrofi gyda beth sy'n gweithio yn yr ystafell ddosbarth, a chytuno ar y cyd ar beth ddylai cynnydd fod yn eu cyd-destunau.
- 6.24 Ailadroddwyd y pwynt hwn yn gryf gan y grŵp Cymraeg cyffredinol a gredai y dylid annog sgysiau gyda chlystyrau. Dylai'r trafodaethau hyn anelu at gael gwared ar unrhyw amwysedd ynghylch cynnydd yn ystod y pontio rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd. Awgrymwyd bod ar ysgolion cynradd angen strwythur clir yn ei le, fel bod mwy o gysondeb. Roedd hyn yn troi'n ôl at bwysigrwydd continwwm iaith, y credai cyfranwyr y dylid ei adlewyrchu yn y fframwaith.

Thema 4: Cymorth a chyfleoedd i ymarferwyr

- 6.25 Pan ofynnwyd iddynt pa ddeunyddiau cymorth ychwanegol sydd eu hangen i ddefnyddio'r fframwaith yn effeithiol, pwysleisiwyd pwysigrwydd rhaglenni a llwyfannau digidol gan ymarferwyr ysgolion

cynradd. Awgrymwyd y gallai hyn fod yn atodiad i'r fframwaith ei hun, yn cynnig canllawiau ar yr hyn sydd ar gael.

- 6.26 Mae defnyddio deunyddiau sy'n berthnasol i athrawon a dysgwyr gydag awgrymiadau o fanc adnoddau cenedlaethol i'r perwyl yn gydnaws â'r continwmm iaith arfaethedig. Dywedodd ymarferwyr ysgolion cynradd ei bod yn hanfodol y caiff dysgu proffesiynol ei gyflwyno law yn llaw â'r adnoddau hyn, gan eu bod yn teimlo nad yw adnoddau ar eu pen eu hunain yn ddigon i ddatblygu cymhwysedd iaith ymysg athrawon.
- 6.27 Roedd ymarferwyr ysgolion uwchradd yn pwysleisio hefyd bwysigrwydd cynnydd ieithyddol, yn hytrach na dull thematig, wrth benderfynu pa adnoddau sydd fwyaf addas. Y farn oedd fod deunyddiau enghreifftiol yn fuddiol, i ysbrydoli athrawon ar sut y gallant gynllunio'r cwricwlwm i fod yn addas ar gyfer cyd-destun eu hysgol unigol. Yn ogystal, cyfeiriwyd at y Siarter Iaith fel adnodd defnyddiol.
- 6.28 Codwyd y ddarpariaeth hyfforddiant ac adnoddau addas ar gyfer staff llai hyderus yn y gweithdai cyffredinol Cymraeg a Saesneg hefyd. Yn ogystal, roedd astudiaethau achos a llyfrau testun yn cael eu gweld fel adnoddau allweddol i athrawon eu defnyddio. Roedd un rhanddeiliad yn pwysleisio fod adnoddau 'rhyfeddol' ar gael eisoes, a bod angen cynyddu ymwybyddiaeth o hyn.
- 6.29 O ran cyfleoedd dysgu proffesiynol i helpu ymarferwyr i ddefnyddio'r fframwaith, cafodd y cynllun sabothol Cymraeg mewn Blwyddyn ei grybwyll dro ar ôl tro ar draws y gweithdai. Roedd rhanddeiliaid eisoes yn ganmoliaethus iawn ynghylch y rhaglen a'i gallu i roi hyder i athrawon. Fodd bynnag, fel gyda'r ymatebion ar-lein i'r ymgynghoriad, cafodd cyfyngiadau'r cynllun ei godi fel problem.

Thema 5: Gwelliannau cyffredinol i'r fframwaith

- 6.30 Ar draws y pum gweithdy, roedd amryw o awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r fframwaith. Fel y trafodwyd, roedd cynnwys continwrm iaith yn cael ei weld fel rhywbeth hanfodol. Roedd rhanddeiliaid yn teimlo hefyd fod angen rhoi mwy o sylw yn y fframwaith i'r pontio rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd. Roedd cyfranogwyr yn y gweithdy cyffredinol yn crybwyll yr angen i'r fframwaith fod yn cael ei ddeall gan bawb, yn ogystal â chynnwys cerrig milltir mwy amlwg sy'n cael eu deall gan athrawon a dysgwyr.
- 6.31 Teimlai rhai ymarferwyr hefyd fod angen i'r fframwaith gosod mwy o bwyslais ar elfen ddiwylliannol yr iaith Gymraeg. Mae'n bwysig nodi er hynny fod amryw o ymarferwyr yn crybwyll cyfeiriad y fframwaith at ddiwylliant fel un o'i gryfderau.
- 6.32 Yn gyffredinol, y farn oedd mai prif rôl y fframwaith oedd paratoi ymarferwyr a sicrhau eu bod yn gwybod beth a ddisgwylir ohonynt mewn dogfen syml, gryno. Roedd ychwanegu canllawiau ac adnoddau, neu gyfeirio atynt, yn cael ei weld fel rhywbeth angenrheidiol i alluogi'r fframwaith i ddod yn ymarferol a chael ei weithredu.

Agweddau defnyddiol o'r fframwaith

- 6.33 Law yn llaw ag awgrymiadau am welliannau, roedd hefyd sawl agwedd o'r fframwaith a oedd yn ddefnyddiol yn marn ymarferwyr. Roedd rhanddeiliaid yn llwyr gymeradwyo egwyddorion y fframwaith, ac er yn cydnabod bod "gwaith i'w wneud" o hyn, yn gweld y ddogfen fel "man cychwyn da".
- 6.34 Roedd y pwyslais ar ddiwylliant a sgiliau trwy'r holl feysydd cynnydd yn cael ei groesawu'n benodol, fel roedd cyfeiriad at themâu fel empathi a pherthyn. Roedd elfennau o arloesi mewn addysgu Cymraeg hefyd yn ennyn ymateb cadarnhaol. Roedd rhai ymarferwyr yn hoffi'r ffordd roedd modd addasu a throsglwyddo'r fframwaith ar gyfer dysgu unrhyw iaith.

Sylwadau ychwanegol

- 6.35 Ar ddiwedd pob gweithdy, fe wnaethom gynnig cyfle i'r cyfranogwyr wneud unrhyw sylwadau terfynol, ychwanegol ynghylch addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg.
- 6.36 Codwyd yr anawsterau mae'r sector addysg yn eu hwynebu o ran recriwtio athrawon Cymraeg, ynghyd â'r farn fod angen mwy o staff a mwy o oriau i gael eu neilltuo i'r Gymraeg. Teimlai rhai cyfranogwyr hefyd fod angen i'r fframwaith gael rhwymedigaethau statudol er mwyn rhoi "statws" iddo.
- 6.37 Y farn oedd bod sicrhau ymrwymiad gan awdurdodau lleol, uwch arweinwyr, rhieni a'r gymuned yn hanfodol fel rhan o ymdrech ehangach i gyrraedd y targed a osodir yn Cymraeg 2050. Yn ogystal, cyfeiriwyd hefyd at ymgorffori'r Gymraeg i ethos yr ysgol y tu hwnt i'r adran iaith.
- 6.38 Fel y crybwyllwyd eisoes, roedd hyfforddiant i athrawon a phrifathrawon hefyd yn cael ei weld fel rhywbeth hanfodol, gyda'r awgrym o gyflwyno arbenigwyr Cymraeg i'r ystafell ddosbarth. Mae galluogi atebolrwydd a chefnogaeth i'r fframwaith yn allweddol er mwyn iddo fod yn llwyddiannus wrth helpu athrawon gynllunio cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg. O safbwynt y dysgwr, awgrymwyd y dylai myfyrwyr hŷn weithio gyda rhai iau i helpu datblygu eu sgiliau iaith.
- 6.39 I gloi, roedd gwerthfawrogiad helaeth o'r cyfle i wneud sylwadau a chyfrannu at fireinio'r fframwaith trwy'r broses ymgynghori hon.